CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD BRO MORGANNWG 2021-2036

# ADOLYGIAD ARFARNIAD ANEDDIADAU

Mehefin 2023



PAPUR CEFNDIROL - BP5

RLDP CDLN

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

@CBroMorgannwg CyngorBroMorgannwg LDP@valeofglamorgan.gov.uk 01446 704681 www.bromorgannwg.gov.uk

This document is available in English/ Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

# Cynnwys:

Crynodeb Gweithredol ........ 4

Cyflwyniad ........ 6

Cyd-destun Gofodol – Nodweddion Aneddiadau Bro Morgannwg ........ 7

Adolygiad Hierarchaeth Aneddiadau ........ 9

Cyd-destun Polisi ........ 10

Methodoleg Arfarniad Aneddiadau ........ 19

Arfarniad o’r CDLl Mabwysiedig a Hierarchaeth Aneddiadau (2013 a 2016) ........ 20

Adolygiad Aneddiadau ........ 23

Cyfyngiadau Arfarniad ........ 23

Aneddiadau ac Ardaloedd a Astudiwyd ........ 23

Arfarniad Aneddiadau - Egwyddorion Allweddol a Methodoleg Sgorio ........ 25

Adolygiad Aneddiadau - Safleoedd a Dadansoddiad Cychwynnol ........ 36

Casgliadau ........ 57

**Atodiadau** ........ 65

Atodiad 1 - Map Lleoliad a Ffiniau Aneddiadau a Arfarnwyd ........ 65

Atodiad 2 - Rhestr o Wasanaethau Allweddol a Aseswyd ........ 66

Atodiad 3 – Sgorau Poblogaeth Breswyl Aneddiadau ........ 69

Atodiad 4 - Cymharu Methodoleg Bro Morgannwg â Methodoleg GCSDDdC ........ 72

**Rhestr Ffigurau:**

Ffigur 1: Ardal Weinyddol Cyngor Bro Morgannwg

Ffigur 2: Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Ffigur 3: Meini Prawf Asesu Aneddiadau LICD

Ffigur 4: Datblygu ac Asesu Opsiynau Gofodol ar gyfer Twf

Ffigur 5: Trafnidiaeth Gynaliadwy / Trafnidiaeth Gyhoeddus

Ffigur 6: Darpariaeth Teithio Llesol Presennol

Ffigur 7: Ysgolion o fewn Bro Morgannwg a'r cyffiniau

Ffigur 8: Cyfleusterau Gofal Iechyd ym Mro Morgannwg

Ffigur 9: Safleoedd Cyflogaeth ac Ardaloedd Menter Bro Morgannwg

Ffigur 10: Aneddiadau Bro Morgannwg

**Rhestr Tablau:**

Tabl 1: Hierarchaeth Aneddiadau Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg

Tabl 2: Ardaloedd Aneddiadau a Astudiwyd

Tabl 3: Matrics Sgorio Darpariaeth Trafnidiaeth Gyhoeddus

Tabl 4: Canolfannau Manwerthu ym Mro Morgannwg

Tabl 5: Egwyddor 2.1 - Matrics Sgorio Darpariaeth Gwasanaethau Allweddol

Tabl 6: Egwyddor 2.2 Pellter i Wasanaethau Allweddol (os nad ydynt ar gael o fewn yr anheddiad)

Tabl 7: Crynodeb Archwilio Gwasanaethau / Cyfleusterau

Tabl 8: Matrics Sgorio Cyfle Cyflogaeth

Tabl 9: Matrics Sgorio Maint Poblogaeth

Tabl 10: Sgorau Aneddiadau yn erbyn y Tair Egwyddor Asesu

Tabl 11: Hygyrchedd ac Amlder Trafnidiaeth Gyhoeddus – Bws a Rheilffordd

Tabl 12: Aneddiadau gyda Gwasanaethau Allweddol

Tabl 13: Crynodeb Archwiliad Aneddiadau Anghenion Dyddiol

Tabl 14: Cyfleoedd Cyflogaeth

Tabl 15: Sgôr Cyffredinol Aneddiadau Allweddol a Chanolfannau Gwasanaeth

Tabl 16: Sgôr Cyffredinol Prif Aneddiadau

Tabl 17: Sgorau Cyffredinol Aneddiadau Gwledig Bach

Tabl 18: Sgôr Cyffredinol Pentrefannau ac Aneddiadau Gwledig

# 1 CRYNODEB GWEITHREDOL

**1.1** Mae'r arfarniad aneddiadau hwn yn nodi methodoleg y Cyngor ar gyfer cynnal arfarniad aneddiadau ac yn ceisio nodi hierarchaeth o aneddiadau a allai fod yn addas i ddarparu ar gyfer twf tai a chyflogaeth yn y dyfodol o ran eu lleoliad, eu rôl, a'u swyddogaeth.

**1.2** Mae'r gwaith wedi dadansoddi llawer iawn o wybodaeth er mwyn pennu rôl a swyddogaeth aneddiadau ym Mro Morgannwg ac mae'n adeiladu ar asesiadau blaenorol a roddodd dystiolaeth gefndirol i Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig 2011-2026 a nodi hierarchaeth aneddiadau ar gyfer Bro Morgannwg.

**1.3** Mae'r arfarniad hwn wedi'i seilio ar y fethodoleg ranbarthol a ddrafftiwyd gan Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (GCSDDdC) gydag addasiadau i adlewyrchu amgylchiadau lleol. Fodd bynnag, mae'n dilyn asesiad yn erbyn y tair prif egwyddor a nodir yng ngwaith rhanbarthol GCSDDdC, sef:

- **Egwyddor 1 –** Lefel trafnidiaeth gynaliadwy a hygyrchedd o fewn aneddiadau ac o'u cwmpas.
- **Egwyddor 2 –** Argaeledd cyfleusterau a gwasanaethau lleol mewn aneddiadau ac o'u cwmpas.
- **Egwyddor 3 –** Lefel y cyfleoedd cyflogaeth o fewn aneddiadau ac o'u cwmpas.

**1.4** Mae ystyried pob un o'r egwyddorion hyn ynghyd â maint poblogaeth anheddiad, wedi cynorthwyo'r broses o nodi hierarchaeth aneddiadau yn seiliedig ar yr asesiad meintiol hwn. Mae canfyddiadau'r adolygiad aneddiadau yn atgyfnerthu astudiaethau ac arfarniadau cynharach i raddau helaeth er bod sawl anheddiad wedi symud o fewn yr hierarchaeth. Mae'r asesiad yn dangos eto bod Bro Morgannwg yn cynnig ystod amrywiol o aneddiadau sy'n cynnwys ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau, ac sy'n cyflawni amrywiaeth o rolau a swyddogaethau i gefnogi'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

**1.5** Ystyrir bod categoreiddio aneddiadau'r Fro yn 4 categori yn cynrychioli rôl, cymeriad a swyddogaeth aneddiadau orau. Mae’r rhain fel a ganlyn:

**Aneddiadau Allweddol a Chanolfannau Gwasanaeth:**

Anheddiad Allweddol: Y Barri

Aneddiadau Canolfannau Gwasanaeth: Y Bont-faen, Llanilltud Fawr, Penarth

**Prif Aneddiadau:**

Dinas Powys, Y Rhws, Sain Tathan, Llandochau (Penarth), Sili, Gwenfô, y Wig a Chroes Cwrlwys

**Aneddiadau Gwledig Bach:**

| | | |
|---|---|---|
| Aberddawan (Dwyrain) | Craig Pen-llin | Pen-llin |
| Aberthin | Llancarfan | Llanbedr-y-fro |
| Tresimwn | Llandŵ | Tresigin |
| Tregolwyn | Llan-faes | Saint-y-brid |
| Corntwn | Llyswyrny | Sain Nicolas |
| Ewenni | Aberogwr | Tre-os |
| Fferm Goch | Pendeulwyn | Ystradowen |

**Pentrefannau ac Aneddiadau Gwledig Llai:**

| | | |
|---|---|---|
| Aberddawan (Gorllewin) | Llanfihangel y Bont-faen | Llansanffraid-ar-Elái |
| Brychdwn | Llansanwyr | Sain Dunwyd |
| Castell Alun | Llantriddyd | Sain Siorys |
| Dinas | Maendy | Saint Hilari |
| Y Ddrôp | Marcroes | Llwyneliddon |
| Dyffryn | Llanfihangel-y-pwll | Eglwys y Santes Fair |
| Trefflemin | Yr As Fawr | St Mary Hill |
| Ffwl-y-mwn | Moulton | Sant Y Nyll |
| Silstwn | Norton | Swanbridge |
| Gwern y Steeple | Pentref Ogwr | Tair Onen |
| Hensol | Pancross | The Downs |
| Lampha | Pen-marc | The Herberts |
| Larnog | Penn Onn | Tredogan |
| Lecwydd | Pentremeurig | Trerhyngyll |
| Llanbydderi | Porthceri | Tre-Dodridge |
| Llancatal | Ruthin | Twyn-yr-Odyn |
| Llandochau (Y Bont-faen) | Southerndown | Tre-walter |
| Llan-gan | Saint Andras | Llanddunwyd |

# 2 CYFLWYNIAD

**2.1** Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (LlCD) Llywodraeth Cymru (Rhifyn 3 Mawrth 2020) yn cynghori y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) wrth ddatblygu eu strategaeth ofodol "*gynnal asesiad aneddiadau i lywio penderfyniadau ynghylch lle y dylai datblygiad gael ei leoli'n ofodol i gyflawni patrwm cynaliadwy o dwf, lleihau patrymau anghynaladwy o ran symudiad pobl a chefnogi gwasanaethau a chyfleusterau lleol" (para 5.15).* Mae'r LlCD yn nodi y dylai asesiadau o'r fath geisio nodi'r aneddiadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer twf (ac) anelu at sicrhau cydbwysedd rhwng cartrefi a swyddi er mwyn lleihau'r angen i gymudo.

**2.2** Mae'r LlCD yn ei gwneud yn ofynnol i ACLlau lunio methodoleg ar gyfer asesu rôl a swyddogaeth aneddiadau sydd wedi'i nodi'n glir yn y sylfaen dystiolaeth; dylai fod yn dryloyw ynghylch sut mae aneddiadau'n cael eu hasesu, y cydrannau asesu allweddol a sut mae hyn wedi'i gymhwyso mewn modd cyson ar draws yr ardal. Dylai'r asesiad hwn fod yn sail i'r hierarchaeth aneddiadau (para 5.17), gan nodi'r aneddiadau mwyaf priodol ar gyfer twf o ran argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau a chyfleusterau.

**2.3** Mae'r arfarniad hwn yn nodi methodoleg y Cyngor ar gyfer cynnal ei asesiad aneddiadau, yn bennaf seiliedig ar ddadansoddiad o boblogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau, a'r cymhwysiad a'r dadansoddiad dilynol o'r wybodaeth i ddarparu casgliadau ar rolau a swyddogaethau aneddiadau. Bydd yr asesiad hwn yn rhan allweddol o'r dystiolaeth ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol newydd (CDLlN) Bro Morgannwg 2021-2036.

# 3 CYD-DESTUN GOFODOL - NODWEDDION ANEDDIADAU BRO MORGANNWG

**3.1** Bro Morgannwg yw Awdurdod Unedol mwyaf deheuol Cymru, ac mae'n cynnwys 33,097 hectar (331 milltir sgwâr) gyda 53 cilomedr o arfordir, a 19 cilometr ohono’n Arfordir Treftadaeth. Mae’r awdurdod yn bennaf wledig ond yn cynnwys cymysgedd o drefi a phentrefi hefyd. Mae'r Fro wledig yn cynnwys cymysgedd amrywiol o dir fferm pantiog, basnau dyffryn, coetir ac arfordir heb ei ddifetha. Fodd bynnag, ac eithrio tref farchnad hanesyddol Y Bont-faen, mae'r prif ardaloedd trefol wedi'u lleoli ar hyd y llain arfordirol tua'r dwyrain o Lanilltud Fawr ac maen nhw wedi’u lleoli’n bennaf ar gornel de-ddwyreiniol Bro Morgannwg. Yn ôl Cyfrifiad y DU yn 2021, roedd poblogaeth Bro Morgannwg oddeutu 131,800.

**3.2** Y prif aneddiadau ym Mro Morgannwg yw'r Barri, Penarth, Dinas Powys, Llanilltud Fawr a'r Bont-faen, gyda'r ddau olaf yn drefi hanesyddol sydd wedi’u hamgylchynu gan aneddiadau gwledig llai.

**3.3** Y Barri yw canolfan weinyddol Bro Morgannwg gyda phoblogaeth breswyl o tua 58,000. Mae'r dref yn cynnwys cyfleoedd cyflogaeth allweddol ac yn gweithredu fel hyb trafnidiaeth pwysig gyda phedair gorsaf drenau, porthladd gweithredol ac ystod eang o gysylltiadau bws. Yn 2010, dynododd Llywodraeth Cymru y Barri yn Ardal Adfywio, gan gefnogi datblygu'r Barri i fod yn lle deniadol i fyw; a chefnogi datblygu Ynys y Barri yn gyrchfan ar gyfer teithiau dydd â gweithgareddau yn bennaf. Mae Maes Awyr Caerdydd, yr unig faes awyr rhyngwladol o bwys yng Nghymru, wedi’i leoli tua 5 km i'r gorllewin o ganol Y Barri.

**3.4** Er bod trefi hanesyddol y Bont-faen, Penarth a Llanilltud Fawr i gyd yn wahanol iawn o ran eu cymeriad, mae ganddynt rolau a swyddogaethau tebyg. Er enghraifft, mae gan bob un ohonynt boblogaethau preswyl sylweddol, cyfleoedd cyflogaeth lleol, canol trefi sefydledig, darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus dda yn gyffredinol ac amrywiaeth eang o wasanaethau a chyfleusterau diwylliannol, addysgol a chymunedol. Am y rhesymau hyn, mae'r CDLl mabwysiedig presennol yn nodi'r rhain fel 'Aneddiadau Canolfannau Gwasanaeth' i gydnabod eu rôl wrth wasanaethu anghenion dyddiol eu trigolion lleol a gweithredu fel canolfannau pwysig i'r rhai sy'n byw mewn aneddiadau cyfagos sy’n llai o faint.

**3.5** Er gwaethaf rôl economaidd strategol Sain Tathan, mae prif aneddiadau Dinas Powys, Llandochau (Penarth), Y Rhws, Sili, Sain Tathan a Gwenfô yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu lefel o dwf tai, yn ogystal â rhai gwasanaethau a chyfleusterau lleol allweddol. Mae'r Prif Aneddiadau'n ategu rôl Aneddiadau'r Canolfannau Gwasanaeth gan eu bod yn darparu ar gyfer anghenion trigolion ac anghenion yr ardaloedd gwledig ehangach o'u cwmpas. Maent yn cynnig sawl gwasanaeth a chyfleuster allweddol, sy'n hanfodol i'w rôl fel cymunedau cynaliadwy, wrth iddynt leihau'r angen i deithio i'r Barri neu Aneddiadau'r Canolfannau Gwasanaeth ar gyfer anghenion o ddydd i ddydd. Mae'r cyfleusterau hyn yn cynnwys ysgolion cynradd, siopau cyfleus bach, siopau bwyd a diod, rhywfaint o ddarpariaeth cyflogaeth ar raddfa fach a thrafnidiaeth gyhoeddus reolaidd.

**3.6** Mae'r CDLI mabwysiedig hefyd yn nodi 'Aneddiadau Gwledig Bach' ac yn yr aneddiadau hyn, mae'r CDLI mabwysiedig yn darparu ar gyfer twf cymedrol i helpu i ddiwallu angen tai lleol ac i gefnogi gwasanaethau lleol presennol.

**3.7** Mae canolfannau Caerdydd a Phen-y-bont hefyd wedi'u lleoli yn agos at ffiniau Dwyreiniol a Gorllewinol y Fro yn y drefn honno a cheir cymudo trawsffiniol sylweddol gan drigolion Bro Morgannwg i'r ardaloedd hyn, yn enwedig i Gaerdydd. Mae Ffigur 1 yn dangos gwasgariad yr aneddiadau mawr ym Mro Morgannwg a lleoliad yr awdurdod o fewn y rhanbarth ehangach.

**<u>Ffigur 1: Ardal Weinyddol Cyngor Bro Morgannwg</u>**



## 3.8 Adolygiad Hierarchaeth Aneddiadau

**3.8.1** Un o rolau sylfaenol y CDLIN yw pennu'r gofyniad am dwf a datblygiad yn ystod cyfnod y cynllun a gwneud darpariaeth ar gyfer lle bydd y twf hwn yn digwydd. Mae'r aneddiadau a ystyriwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Bro Morgannwg 2011-2026 (Papur Cefndir Arfarniad Aneddiadau Cynaliadwy - Diweddariad Chwefror 2016) wedi'u hailasesu i sefydlu hierarchaeth aneddiadau ar gyfer y CDLIN.

**3.8.2** Un o'r prif amcanion o sefydlu hierarchaeth aneddiadau yw hyrwyddo cymunedau cynaliadwy drwy ddod â thai, swyddi a gwasanaethau yn agosach at ei gilydd er mwyn hyrwyddo hyfywedd cyfleusterau lleol a lleihau'r angen i deithio i wasanaethau a chyfleusterau mewn mannau eraill. Ar frig yr hierarchaeth mae'r aneddiadau mwy sydd â'r seilwaith mwyaf o ran cyfleusterau a gwasanaethau a dyma'r rhai mwyaf hygyrch drwy ddulliau teithio cynaliadwy. Mae'r aneddiadau llai gyda llai o gyfleusterau, gwasanaethau a llai o fynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ar waelod yr hierarchaeth.

**3.8.3** Prif nod yr adolygiad hwn yw rhoi diweddariad i Arfarniad Aneddiadau blaenorol y Cyngor (2016). Fe wnaeth hyn nodi hierarchaeth o aneddiadau a phennu rôl a swyddogaeth trefi a phentrefi'r Fro a sefydlu hierarchaeth o aneddiadau gan nodi'r rhai a ystyrir yn addas ar gyfer lletya twf ychwanegol dros gyfnod y cynllun 2011-2026.

**3.8.4** Bydd yr adolygiad hwn yn rhan o sylfaen dystiolaeth fwy a fydd yn llywio'r strategaeth ofodol a'r opsiynau twf ar gyfer y CDLIN.

# 4 CYD-DESTUN POLISI

## 4.1 Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol (2040) (2021)

**4.1.1** Cafodd Cymru'r Dyfodol (2021) ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru fel fframwaith ar gyfer datblygu cenedlaethol hyd at 2040. Mae'r adroddiad yn manylu ar ganlyniadau amrywiol y bwriedir eu cyflawni drwy ddatblygu; roedd y canlyniadau canlynol o berthnasedd penodol i'r adolygiad hwn gan lywio'r fethodoleg ar gyfer yr arfarniad hwn:

**4.1.2** Gall Cymru fod yn lle lle mae pobl yn byw;

- *"mewn mannau gwledig bywiog gyda mynediad i gartrefi, swyddi a gwasanaethau" (Canlyniad Rhif 2, t. 54);*
- *"a gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ffocws a sbardun ar gyfer twf cynaliadwy" (Canlyniad Rhif 5, t. 55); a*
- *"mewn mannau lle mae teithio'n gynaliadwy" (Canlyniad Rhif 7, t.55)*

**4.1.3** Mae Cymru'r Dyfodol hefyd yn amlinellu amryw o Egwyddorion Creu Lleoedd Strategol y dylai datblygiadau ar draws y wlad lynu atynt. Mae'r egwyddorion sy'n sail i'r fethodoleg a ddefnyddir yn yr arfarniad hwn yn adlewyrchu'r rhai a ddiffinnir yng Nghymru'r Dyfodol, gan atgyfnerthu'r themâu craidd a ystyrir yn y fethodoleg hon megis, trafnidiaeth gynaliadwy a mynediad digonol at gartrefi, swyddi a gwasanaethau.

## 4.2 Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Rhifyn 11 (2021)

**4.2.1** Mae PCC 11 yn tynnu sylw at y ffaith mai un o nodau sylfaenol y system gynllunio defnydd tir yng Nghymru yw sicrhau Lleoedd Cynaliadwy. Dylai Lleoedd Cynaliadwy fod yn llefydd hygyrch, gweithredol, deniadol, cyfeillgar, iach, diogel, cymdeithasol a chroesawgar. Mae PCC 11 hefyd yn amlinellu'r pum Canlyniad Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol, a restrir isod, sydd i gyd yn amlygu'r pwyslais a roddir ar flaenoriaethu cynaliadwyedd:

- *Creu a Chynnal Cymunedau*
- *Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau*
- *Gwarchod yr Amgylchedd i'r Eithaf a Chyfyngu'r Effaith ar yr Amgylchedd*
- *Tyfu ein Heconomi mewn Modd Cynaliadwy*
- *Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach*

**4.2.2** 4.1.4 Mae PCC yn cydnabod bod llai o gyfleoedd i gynyddu defnydd o ddulliau teithio llesol, megis cerdded, beicio, a lleihau'r defnydd o geir mewn ardaloedd gwledig na mewn ardaloedd trefol. O ganlyniad, cynghorir bod y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd mewn aneddiadau sy'n bodoli gyda hygyrchedd cymharol dda trwy ddulliau heblaw'r car, o gymharu â'r ardal wledig ehangach. Mae'n ofynnol i ddatblygiadau gynnig cysylltiad teithio llesol cryf â chanolfannau aneddiadau lle bo modd (para. 3.39).

**4.2.3** Mae PCC hefyd yn amlygu'r ffaith bod rhaid i'r system gynllunio ymdrechu i gyflawni'r Nodau Llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2015 (Ffigur 2). Mae'r nodau hyn yn dangos ymhellach pa mor bwysig yw blaenoriaethu cynaliadwyedd ac felly, yn atgyfnerthu'r angen am arfarniad o'r aneddiadau yn y Fro.

**Ffigur 2 - Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**




**Ffynhonnell:**Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (Chwefror 2021)

## 4.3 Adeiladu Lleoedd Gwell – Creu Lleoedd ac Adfer wedi Covid-19 (Gorffennaf 2020)

**4.3.1** Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut y gall y system gynllunio sicrhau dyfodol mwy disglair a gwydn i drigolion Cymru, yn ogystal â nodi materion datblygu allweddol y mae'n rhaid eu hystyried wrth symud ymlaen. Mae’r rhain yn cynnwys:

- *“Aros yn lleol: creu cymdogaethau,*
- *Teithio llesol: ymarfer corff ac ailddarganfod dulliau cludiant*
- *Adfywio canol ein trefi*
- *Lleoedd digidol - achubiaeth y cyfnod clo*
- *Arferion gwaith sy’n newid: ein hangen am dir cyflogaeth yn y dyfodol*
- *Ail-ddeffro sectorau twristiaeth a diwylliannol Cymru*
- *Seilwaith gwyrdd, iechyd a llesiant a gwydnwch ecolegol*
- *Gwella ansawdd aer a seinweddau ar gyfer gwell iechyd a llesiant (t.13).*

## 4.4 Nodyn Cyngor Technegol 4 (NCT 4) – Datblygiadau Manwerthu a Masnachol (2016)

**4.4.1** Mae NCT 4 yn argymell dull 'canol trefi yn gyntaf' sy'n cydnabod canolfannau manwerthu a masnachol fel canolbwyntiau amrywiol, defnydd cymysg a ddylai fod yn ystyriaethau sylfaenol wrth asesu'r lleoedd mwyaf priodol ar gyfer amrywiaeth eang o ddatblygiadau. Pwysleisir bod "...cyd-leoliad y defnyddiau hyn a'u lefelau uchel o hygyrchedd gan ystod o opsiynau trafnidiaeth yn eu gwneud yn lleoliadau cynaliadwy" (NCT 4, para.2.1).

**4.4.2** Mae NCT 4 yn ailadrodd y rôl bwysig y mae canolfannau manwerthu a masnachol yn ei chwarae wrth greu lleoliadau cynaliadwy, gan geisio sicrhau bod ganddynt ddyfodol cadarnhaol. Mae’n datgan:

*"... mae mynediad da i ganolfannau manwerthu a masnachol ac oddi fewn iddynt yn allweddol, i fywiogrwydd y llefydd hynny ac i sicrhau bod gan bawb mewn cymdeithas fynediad at yr amrywiaeth eang o nwyddau a gwasanaethau." Hefyd, dylai Cynlluniau Datblygu sicrhau bod mynediad yn gynaliadwy trwy hyrwyddo'r gallu i "... cerdded, beicio neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd canolfannau manwerthu a masnachol... " (NCT 4, para.2.7).*

**4.4.3** Mae NTC 4 yn dangos yr angen i ystyried canolfannau manwerthu a masnachol wrth ystyried cynaliadwyedd lleoliad o ran eu cymysgedd o ddefnyddiau a'u hygyrchedd. Awdurdod gwledig yw Bro Morgannwg yn bennaf ac nid oes gan rai o'r aneddiadau mwy gwledig lawer, os o gwbl, o wasanaethau manwerthu a masnachol yn eu gwasanaethu. Felly, fel rhan o'r asesiad, mae'n bwysig ystyried y cysylltiadau swyddogaethol rhwng yr aneddiadau gwledig a chefnogi canol trefi.

## 4.5 Nodyn Cyngor Technegol 6 (NCT 6) – Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)

**4.5.1** Mae NCT 6 yn ehangu ar yr egwyddorion sy'n cael eu hamlinellu mewn canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol ac mewn perthynas â llywio lleoliad datblygiad, ac yn cynghori *"Dylai cynlluniau datblygu nodi'r weledigaeth ofodol ar gyfer cymunedau gwledig. Dylai hyn fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o'r cysylltiadau swyddogaethol o fewn yr ardal a'r potensial ar gyfer gwella cynaliadwyedd y patrwm anheddiad presennol. Gall llawer o gymunedau gwledig ddarparu ar gyfer datblygiad, yn enwedig i ddiwallu anghenion lleol. Gall datblygiad newydd helpu i greu cyfoeth i gefnogi gwasanaethau lleol, gan sicrhau bod cymunedau'n gynaliadwy yn y tymor hir." (NCT 6, para 2.2.1).*

**4.5.2** Yn unol â NCT 6, cynhaliwyd archwiliad o wasanaethau a chyfleusterau gwledig yn ôl aneddiadau unigol gan ystyried cysylltiadau swyddogaethol o fewn yr ardal i lywio'r strategaeth aneddiadau ar gyfer y CDLIN.

## 4.6 Nodyn Cyngor Technegol 18 (NCT 18) - Trafnidiaeth (2007)

**4.6.1** Mae NCT 18 yn nodi nod Llywodraeth Cymru o hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy yng Nghymru. Mae'r NCT yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau amgylcheddol Llywodraeth Cymru yn ei Strategaeth Amgylcheddol drwy (NCT 18, para.2.3):

- *Hyrwyddo patrymau aneddiadau ag adnoddau a theithio effeithlon;*
- *Sicrhau bod datblygiad newydd wedi'i leoli lle mae, neu lle bydd, mynediad da trwy drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio a thrwy hynny, leihau'r angen i deithio a meithrin cynhwysiant cymdeithasol;*
- *Annog lleoli datblygiadau ger defnyddiau cysylltiedig eraill i annog teithiau amlbwrpas;*
- *Hyrwyddo beicio a cherdded;*
- *Cefnogi darparu trafnidiaeth gyhoeddus gynhwysol o ansawdd uchel; a*
- *Sicrhau bod seilwaith trafnidiaeth neu welliannau gwasanaeth sy'n angenrheidiol i wasanaethu datblygiad newydd yn caniatáu i rwydweithiau trafnidiaeth presennol barhau i gyflawni eu swyddogaethau a nodwyd.*

**4.6.2** Mae NTC 18 yn mynd ymlaen i bwysleisio'r angen i nodi safleoedd preswyl mewn ardaloedd hygyrch sydd â chysylltiadau da â swyddi, siopau a gwasanaethau trwy ddulliau heblaw'r car a lle mae gan wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus gapasiti presennol neu wedi'i gynllunio i amsugno datblygiad pellach (para 2.4). Ar sail hyn, dylai polisïau aneddiadau:

- Hyrwyddo datblygiad tai mewn lleoliadau sydd â mynediad da trwy gerdded a beicio i ysgolion cynradd ac uwchradd a safleoedd trafnidiaeth gyhoeddus, a thrwy bob dull i gyflogaeth, addysg bellach ac addysg uwch, gwasanaethau, siopau a hamdden, neu lle bydd mynediad o'r fath yn cael ei ddarparu fel rhan o'r cynllun neu'n gynnig cadarn yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol;
- Sicrhau bod cynlluniau tai sylweddol newydd yn cynnwys defnydd ategol gan gynnwys siopau a gwasanaethau lleol a, lle bo'n briodol, cyflogaeth leol;
- Cynnwys polisïau a safonau ar ddwysedd, a pharcio i gyflawni dwyseddau preswyl uwch mewn mannau sydd â hygyrchedd a chapasiti trafnidiaeth gyhoeddus dda;
- Annog cynlluniau preswyl sy'n ymgorffori cynigion rheoli traffig megis parthau cartrefi, mesurau arafu a pharthau 20 mya a lle bo'n briodol, cynlluniau sy'n caniatáu i drafnidiaeth gyhoeddus basio drwodd yn hawdd; a
- Sicrhau bod cynlluniau a dwyseddau yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i drigolion gerdded a beicio i gyfleusterau lleol a safleoedd trafnidiaeth gyhoeddus.

**4.6.3** Mae hyn yn ailadrodd pwysigrwydd trafnidiaeth gynaliadwy wrth nodi aneddiadau cynaliadwy, gan fod NCT 18 yn nodi bod trafnidiaeth gynaliadwy yn elfen allweddol o gynlluniau datblygu. Mae’r thema trafnidiaeth gynaliadwy a hygyrchedd yn cael cryn ystyriaeth mewn canllawiau cenedlaethol ac yn rhoi cyfrifoldeb ar Awdurdodau Lleol i'w blaenoriaethu.

**4.6.4** Mae NCT 18 hefyd yn cydnabod anawsterau creu lleoliadau cynaliadwy mewn ardaloedd mwy gwledig. Mae'n nodi *"Bydd materion trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig yn amrywio yn dibynnu ar pa mor bell ydyn nhw o ganol trefi mawr. Mae pellter hir allan - cymudo o ardaloedd gwledig yn codi materion cynaliadwyedd o ystyried hyd y daith ac mae'r lleoliad gwledig yn golygu nad yw trafnidiaeth gyhoeddus gonfensiynol yn debygol o fod yn hyfyw mewn ymateb. Felly, dylai awdurdodau lleol ystyried a oes angen dulliau polisi gwahanol yn ddibynnol ar agosrwydd ardaloedd gwledig i ganol trefi. Er enghraifft, efallai y bydd strategaeth y cynllun datblygu yn gofyn am ddull mwy datganoledig o ran lleoliad cyflogaeth er mwyn lleihau milltiroedd ceir preifat yn gyffredinol mewn ardal heb gysylltiadau swyddogaethol cryf ag aneddiadau mwy. Ar gyfer ardal wledig sy'n agos at ardal drefol fawr er enghraifft, gall datblygiad sy'n gwasanaethu anghenion lleol gael eu cyfeirio at aneddiadau i ddarparu digon o alw i alluogi gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ymestyn o'r brif ganolfan." (NCT 18, para.3.13, 2007).* Felly, mae'n bwysig deall natur aneddiadau er mwyn helpu i lywio strategaeth y cynllun datblygu a sicrhau lleoliad cynaliadwy datblygiad fel y nodir yn PCC a NCT 18.

**4.6.5** Yn ogystal â'r canllawiau yn y NCT mae Deddf Trafnidiaeth 2000, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006, yn gofyn i'r Cyngor lunio Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLl) bob pum mlynedd a’i adolygu. Bydd Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn cael ei baratoi ochr yn ochr â'r CDLlN.

## 4.7 Nodyn Cyngor Technegol 20 (NCT 20), Cynllunio a'r Iaith Gymraeg, 2017

**4.7.1** Mae NCT 20 yn rhoi cyngor ar ymgorffori'r iaith Gymraeg mewn cynlluniau datblygu. Mae'r NCT yn pwysleisio'r angen i asesu effeithiau cronnus posibl datblygiad ar draws ardal y Cynllun; yn benodol sut mae'r strategaeth a pholisïau'n debygol o effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg a chynaladwyedd cymunedau. Gellir defnyddio dosbarthiad gofodol datblygiad a seilwaith newydd fel ffordd strategol o gefnogi'r iaith yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd.

**4.7.2** Mae PCC 11 hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd ystyried effeithiau tebygol cynlluniau datblygu ar y defnydd o'r Gymraeg. Er mwyn cyflawni hyn mae'n argymell *"... mae angen i ddatblygiadau gael eu dosbarthu’n eang a’u cyflwyno’n raddol gan ystyried gallu'r ardal neu'r gymuned i ddarparu ar gyfer y datblygiad heb effeithio'n andwyol ar y defnydd o’r Gymraeg" (PCC 11, para 3. .26)*

**4.7.3** Mae Bro Morgannwg wedi gweld cynnydd graddol yng ngallu'r boblogaeth i siarad Cymraeg ac mae'r data diweddaraf a ryddhawyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi bod 11.5% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg o 2021. Bydd unrhyw effeithiau ar y Gymraeg yn cael sylw yn Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig y CDLIN.

## 4.8 Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

**4.8.1** Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol yng Nghymru fapio a chynllunio ar gyfer llwybrau addas ar gyfer teithio llesol. Yn hytrach na bod yn ddiddordeb hamdden yn unig, nod y Ddeddf yw gwneud teithio llesol yr opsiwn mwyaf deniadol ar gyfer siwrneiau bob dydd byrrach fel siwrneiau i'r gwaith, yr ysgol neu i gyrraedd siopau neu wasanaethau.

**4.8.2** Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru lunio mapiau teithio llesol o rwydweithiau cerdded a beicio a chyflwyno gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn mewn llwybrau a chyfleusterau teithio llesol. Dylai'r llwybrau fod yn gydlynol, yn uniongyrchol, yn ddiogel, yn gyfforddus, ac yn ddeniadol. Mae'r ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau priffyrdd yng Nghymru wneud gwelliannau i lwybrau a chyfleusterau ar gyfer cerddwyr a beicwyr ym mhob cynllun ffordd newydd ac ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr mewn amrywiaeth o swyddogaethau eraill yr Awdurdod Priffyrdd. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol hyrwyddo siwrneiau teithio llesol wrth arfer eu swyddogaethau dan y Ddeddf hon.

**4.8.3** Mae Bro Morgannwg wedi paratoi cyfres o Fapiau Rhwydwaith Integredig (MRhIau) sy'n nodi cynlluniau'r Cyngor ar gyfer gwella llwybrau teithio llesol mewn rhai aneddiadau ac o'u cwmpas yn ystod y 15 mlynedd nesaf. Mae'r llwybrau hyn wedi eu cyfuno i Fap Rhwydwaith Teithio Llesol (MRhTLl) Cymru gyfan gan Lywodraeth Cymru sydd ar gael yma.

## 4.9 Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) (Mawrth 2020) (LlCD)

**4.9.1** Mae ffigur 3 isod yn nodi pynciau y dylid eu hystyried fel rhan o asesiad anheddiad. Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd cyfleoedd teithio llesol, ystod a hygyrchedd gwasanaethau, a darpariaeth gyflogaeth, ac yn awgrymu ei bod yn bwysig ystyried cyd-destun ehangach pob anheddiad fel rhan o'r asesiad hwn. Er enghraifft, y berthynas a'r patrymau symud rhwng aneddiadau mewn awdurdodau cyfagos.

**Ffigur 3: Meini Prawf Asesu Aneddiadau LICD**





**Ffynhonnell:** Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Argraffiad 3

**4.9.2** Mae'r LICD yn ei gwneud yn ofynnol i'r ACLI wneud asesiad anheddiad. Byddai hyn yn golygu asesu rolau a swyddogaethau aneddiadau presennol ac yn y dyfodol yn ogystal â dealltwriaeth o'r berthynas rhwng aneddiadau. Mae LICD3 hefyd yn amlinellu'r ffaith y dylai asesiad o'r fath nodi cynaliadwyedd cymharol aneddiadau o fewn yr awdurdod, er y gallai fod angen ystyried meini prawf eraill hefyd. Er enghraifft, bydd y penderfyniad ynghylch a ddylid dyrannu rhai safleoedd yn dibynnu ar ffactorau gan gynnwys cyfyngiadau amgylcheddol, effaith ar y dirwedd a'r seilwaith presennol; bydd materion o'r fath yn cael sylw pellach drwy'r broses Asesu Safleoedd Ymgeisiol.

**4.9.3** Ar y cyfan, bydd yr arfarniad hwn yn ffurfio un o sawl darn allweddol o dystiolaeth y bydd y Cyngor yn ei ddefnyddio wrth benderfynu ar y ffordd orau i ddosbarthu twf yn y dyfodol mewn ffordd sy'n cyfrannu at amcanion lles a chynaliadwyedd cenedlaethol. Yn hyn o beth bydd yr Arfarniad Aneddiadau yn rhan annatod o ddatblygiad Strategaeth CDLIN fel yr amlygwyd yn y LlCD:

**4.9.4** *"Dylai'r strategaeth ofodol gael ei llywio gan ystod o ffactorau cyflenwi a galw, a eglurir yn ddiweddarach yn y bennod hon. Bydd y strategaeth ofodol yn tynnu ar nifer o ddarnau allweddol o dystiolaeth, megis asesiad anheddiad, Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) ac asesiad hyfywedd, i wneud penderfyniadau polisi gwybodus ar ble i leoli datblygiad. Rhaid cyfleu'r strategaeth yn glir i holl ddefnyddwyr y cynllun, fel y gellir ei chyflwyno mewn modd cadarnhaol" (t. 97, 2020).* Crynhoir yr elfennau allweddol yn Ffigur 4 isod.

<u>**Ffigur 4: Datblygu ac Asesu Opsiynau Gofodol ar gyfer Twf (LlCD 2020)**</u>




**Ffynhonnell:** Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Argraffiad 3 (Mawrth 2020)

**4.9.5** Yn unol â pholisi cenedlaethol mae'r adran ganlynol yn esbonio'r fethodoleg y mae'r Cyngor wedi ei mabwysiadu er mwyn adolygu aneddiadau'r awdurdod, o ran darpariaeth trafnidiaeth a hygyrchedd mewn aneddiadau ac o'u cwmpas, argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau a chyfleoedd am waith. Mae'r arfarniad a gynhaliwyd gan ddefnyddio'r fethodoleg hon wedi ymwneud yn bennaf ag archwiliad o nodweddion o'r fath mewn aneddiadau ac o'u cwmpas.

# 5 METHODOLEG ARFARNIAD ANEDDIADAU

**5.1** Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr asesiad wedi'i seilio ar y dull a nodwyd ym Mhapur Arfarniad Aneddiadau Cynaliadwy (PAAC) drafft Grŵp Braenaru Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (GCSDDdC). Mae hyn yn ceisio amlinellu methodoleg gyffredin ar gyfer arfarniadau aneddiadau cynaliadwy i'w defnyddio ledled rhanbarth De-ddwyrain Cymru.

**5.2** Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y fethodoleg yn adlewyrchu nodweddion unigol aneddiadau'r Fro, tra'n cynnal egwyddorion cyffredinol y PAAC, addaswyd rhai elfennau o'r fethodoleg er mwyn sicrhau ei bod yn berthnasol i Fro Morgannwg. Y prif wyriad o'r fethodoleg ranbarthol fu'r penderfyniad i ddisodli'r mesur methodoleg ranbarthol o lwybrau teithio llesol gyda sgôr yn ymwneud â'r pellter i wasanaethau a chyfleusterau allweddol (e.e. cyfleusterau iechyd, ysgolion, a chanolfannau manwerthu) o aneddiadau llai. Mae'r Cyngor o'r farn bod hyn yn gwerthfawrogi'n well rôl a swyddogaeth y rhan fwyaf o aneddiadau ym Mro Morgannwg ac yn darparu dull mwy priodol o fesur hygyrchedd rhwng aneddiadau. Ar wahân i'r newid hwn, bydd argaeledd llwybrau teithio llesol, darpariaeth cerdded a beicio yn cael eu hystyried drwy asesu safleoedd ymgeisiol unigol ar lefel anheddiad. Er eglurder, mae Atodiad 4 yn darparu cymhariaeth rhwng y fethodoleg a ddefnyddir i ymgymryd â'r arfarniad hwn a dull GCSDDdC.

**5.3** Mae'r Cyngor o'r farn bod y dull cyffredinol a ddefnyddiwyd yn y fethodoleg ranbarthol yn gyffredinol yn adlewyrchu'r hynny a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn yr arfarniad a'r archwiliad aneddiadau blaenorol a gynhaliwyd yn 2013 a'r diweddariad dilynol yn 2016 sy'n cefnogi'r CDLl mabwysiedig. Yn hyn o beth, mae'r Cyngor o'r farn bod y casgliadau cyffredinol ar rôl, swyddogaeth, a chategoreiddio aneddiadau yn yr astudiaethau hyn hefyd yn parhau i fod yn berthnasol, ac o'r herwydd mae'r casgliadau hyn wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn.

# 6 ARFARNIAD O'R CDLI MABWYSIEDIG A HIERARCHAETH ANEDDIADAU (2013 a 2016)

**6.1** Fel rhan o'r dystiolaeth gefndir sy'n cefnogi'r CDLI mabwysiedig, gwnaeth y Cyngor werthuso'r holl aneddiadau presennol ym Mro Morgannwg. Cynhaliwyd yr arfarniad gwreiddiol yn 2013 a'i ddiweddaru yn 2016.

**6.2** Roedd yr arfarniadau'n cynnwys archwiliad o wasanaethau a chyfleusterau presennol gyda phob anheddiad yn cael ei asesu yn erbyn system sgorio ac yn cael ei restru yn ôl ei sgôr cyffredinol. Yna, roedd aneddiadau'n destun dadansoddiad pellach i bennu eu haddasrwydd ar gyfer lletya twf, gan ystyried ffactorau fel ffurf, sensitifrwydd tirwedd a chymeriad yr anheddiad.

**6.3** Arweiniodd y dystiolaeth a gynhyrchwyd yn ystod yr arfarniad hwn at nodi'r hierarchaeth aneddiadau canlynol, a ddosbarthwyd i adlewyrchu eu rôl a'u swyddogaeth strategol o gymharu â'r ystod o wasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael, a hygyrchedd gan drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r hierarchaeth hon yn darparu'r fframwaith ar gyfer dosbarthu twf gofodol o fewn y CDLl mabwysiedig.

**6.4** **<u>HIERARCHAETH ANEDDIADAU'R CDLI MABWYSIEDIG</u>**

**Anheddiad Allweddol:** Y Barri

**Aneddiadau Canolfannau Gwasanaeth**: Y Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth

**Prif Aneddiadau:** Dinas Powys, Llandochau (Penarth), Y Rhws, Sain Tathan, Sili a Gwenfô

**Aneddiadau Gwledig Bach:** Aberthin, Tresimwn, Tregolwyn, Corntwn, Croes Cwrlwys, Dwyrain Aberddawan, Ewenni, Fferm Goch, Craig Pen-llin, Llancarfan, Llandŵ, Llan-faes, Llyswyrni, Aberogwr, Pendeulwyn, Pen-llin, Llanbedr-y-Fro, Tresigin, Southerndown, Saint-y-brid, Sain Nicolas, Treoes, y Wig ac Ystradowen.

**6.5** Mae categoreiddio a grwpio aneddiadau yn seiliedig ar eu rôl, eu swyddogaeth, a'u nodweddion tybiedig fel y nodir isod yn Nhabl 1.

**Tabl 1 - Hierarchaeth Aneddiadau Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg:**

| Haen Hierarchaeth | Math o Anheddiad | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **1** | Anheddiad Allweddol | Mae anheddiad allweddol y Barri yn parhau yn hyb pwysig ar gyfer gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd a chaiff ei gydnabod fel canolfan weinyddol y Fro ac un o’r lleoliadau mwyaf cynaliadwy er mwyn canolbwyntio cyfleoedd datblygu mawr newydd. Mae'r dref wedi cael adfywiad sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae prif reilffordd Bro Morgannwg rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd yn ei chysylltu â'r rhanbarth ehangach ac mae'r unig faes awyr masnachol yn Ne-ddwyrain Cymru wedi'i leoli yn y Rhws rhyw 8 cilometr i'r gorllewin o'r dref. |
| **2** | Aneddiadau Canolfannau Gwasanaeth | Mae gan yr aneddiadau hyn boblogaethau preswyl sylweddol a darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus dda, cyfleoedd cyflogaeth lleol, canol trefi sefydledig ac amrywiaeth eang o wasanaethau a chyfleusterau diwylliannol, addysgol a chymunedol. Mae aneddiadau canolfannau gwasanaeth yn bennaf yn gwasanaethu anghenion dyddiol eu trigolion ond hefyd yn gweithredu fel hybiau pwysig i'r rhai sy'n byw mewn aneddiadau llai cyfagos. Felly, mae ganddynt y gallu i weithredu fel canolbwyntiau ar gyfer twf. |
| **3** | Prif Aneddiadau | Mae'r aneddiadau hyn yn chwarae rhan bwysig wrth ddiwallu'r angen am dai ac wrth ddarparu rhai gwasanaethau a chyfleusterau lleol allweddol; mae ganddynt y gallu i ddarparu ar gyfer anghenion trigolion yn ogystal ag anghenion yr ardaloedd gwledig ehangach cyfagos. Gall eu darpariaeth o wasanaethau a chyfleusterau hefyd leihau'r angen i deithio i 'Anheddiad Allweddol' y Barri neu'r 'Aneddiadau Canolfannau Gwasanaeth' ar gyfer anghenion o ddydd i ddydd. Mae esiamplau o'r cyfleusterau hyn yn cynnwys ysgolion cynradd, siopau cyfleus bach, siopau bwyd a diod, rhywfaint o ddarpariaeth cyflogaeth ar raddfa fach a thrafnidiaeth gyhoeddus reolaidd. |
| **4** | Aneddiadau Gwledig Bach | Mae’r mathau hyn o anheddiad yn cyfrannu tuag at gymeriad arbennig y Fro wledig ac mae hefyd yn chwarae rhan bwysig o ran tanategu cymunedau gwledig cynaliadwy. Mae'r mathau o wasanaethau a chyfleusterau sydd i'w cael fel arfer o fewn yr aneddiadau hyn yn cynnwys addoldai, neuaddau cymunedol, defnyddiau manwerthu ar raddfa fach a chyfleusterau hamdden ffurfiol. Mae nifer o'r aneddiadau gwledig llai hefyd yn darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol ar raddfa fach, |

| | | |
|---|---|---|
| | | naill ai o fewn neu yn agos at yr aneddiadau.  Mae rhai o'r aneddiadau llai hefyd yn cynnwys ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu dalgylch ehangach.  Yn unol â hynny, gellir ystyried y mân aneddiadau gwledig fel rhai swyddogaethol gysylltiedig. |

# 7 ADOLYGIAD ANEDDIADAU

**7.1** Yn unol ag arfarniad cynharach y Cyngor, cafodd archwiliad o wasanaethau a chyfleusterau presennol ledled Bro Morgannwg ei gynnal yn ystod Haf 2022. Roedd hyn yn cynnwys ymchwil bwrdd gwaith gan ddefnyddio cofnodion presennol a gedwir gan y Cyngor ar ei System Gwybodaeth Ddaearyddol (SGDd) yn ogystal â chofnodion sydd ar gael yn gyhoeddus gan asiantaethau cyhoeddus a sefydliadau preifat. Sefydlodd hyn waelodlin o wasanaethau a chyfleusterau oedd yn bresennol ym mhob anheddiad. Roedd canlyniadau'r archwiliad yn sail i'r system sgorio o dan y tair egwyddor sylfaenol a amlinellir o dan adran 1.3; archwilir y rhain ymhellach yn Adran 10.

# 8 CYFYNGIADAU ARFARNIAD

**8.1.1** Mae'r Arfarniad Aneddiadau yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ym mis Gorffennaf 2022 a gall presenoldeb ac argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau newid felly dros amser. Er enghraifft, mae'r sgorau hygyrchedd a ddyfarnwyd i aneddiadau yn seiliedig ar y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus bresennol ac argaeledd gwasanaethau. Yn yr un modd gall yr archwiliad o wasanaethau a chyfleusterau newid dros amser gan adlewyrchu amgylchiadau economaidd a/neu'r galw.

# 9 ANEDDIADAU AC ARDALOEDD A ASTUDIWYD

**9.1.1** Nodwyd yr aneddiadau a aseswyd yn yr astudiaeth hon yn wreiddiol yn Arfarniad Aneddiadau Cynaliadwy 2013 y Cyngor ac maent yn cynnwys y prif drefi, pentrefi a phentrefannau ym Mro Morgannwg.

**9.1.2** Mae cyfanswm o 87 anheddiad wedi'u cynnwys yn yr asesiad, a gellir gweld lleoliad yr aneddiadau yn Atodiad 1.

**<u>Aneddiadau</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Aberddawan (Dwyrain) | Llandochau (Y Bont-faen) | Tresigin |
| Aberddawan (Gorllewin) | Llandochau (Pen) | Southerndown |
| Aberthin | Llandŵ | Saint Andras |
| Y Barri | Llan-gan | Sain Tathan |
| Tresimwn | Llan-faes | Saint-y-brid |
| Brychdwn | Llanfihangel y Bont-faen | Llansanffraid-ar-Elái |
| Castell Alun | Llansanwyr | Sain Dunwyd |
| Dinas | Llantriddyd | Sain Siorys |
| Tregolwyn | Llanilltud Fawr | Saint Hilari |

| | | |
|---|---|---|
| Corntwn | Llyswyrny | Llwyneliddon |
| Y Bont-faen | Maendy | Eglwys y Santes Fair |
| Croes Cwrlwys | Marcroes | St Mary Hill |
| Dinas Powys | Llanfihangel-y-pwll | Sain Nicolas |
| Y Ddrôp | Yr As Fawr | Sant Y Nyll |
| Dyffryn | Moulton | Sili |
| Ewenni | Norton | Swanbridge |
| Fferm Goch | Aberogwr | Tair Onen |
| Trefflemin | Pentref Ogwr | The Downs |
| Ffwl-y-mwn | Pancross | The Herberts |
| Silstwn | Penarth | Tredogan |
| Craig Pen-llin | Pendeulwyn | Tre-os |
| Gwern y Steeple | Pen-llin | Trerhyngyll |
| Hensol | Pen-marc | Tre-Dodridge |
| Lampha | Penn Onn | Twyn-yr-Odyn |
| Larnog | Pentremeurig | Tre-walter |
| Lecwydd | Llanbedr-y-fro | Llanddunwyd |
| Llanbydderi | Porthceri | Gwenfô |
| Llancatal | Y Rhws | Y Wig |
| Llancarfan | Ruthin | Ystradowen |

**9.1.3** Wrth ystyried aneddiadau unigol, ystyriwyd bod rhai ardaloedd unigryw, a adnabyddir yn lleol yn aml o dan enwau eraill, yn ffurfio rhan swyddogaethol ehangach o'r anheddiad. Mae'r ardaloedd hyn yn rhannu'r un gwasanaethau a chyfleusterau sy'n eu gwneud yn agos o ran swyddogaeth yn ogystal â'u lleoliad. At ddibenion yr astudiaeth hon defnyddiwyd yr un dull o resymoli rhai ardaloedd, fel yr amlinellir isod:

**Tabl 2 - Ardaloedd Aneddiadau a Astudiwyd:**

| Ardaloedd Aneddiadau a Astudiwyd | Aneddiadau â pherthynas agos y nodwyd eu bod yn ffurfio rhan o'r prif anheddiad |
|---|---|
| Sain Tathan | Eglwys Brewys / Picketston / Gwersyll Dwyreiniol yr RAF / Gwersyll Gorllewinol yr RAF / Sain Tathan |
| Y Bont-faen | Y Bont-faen / Llanfleiddan |
| Sili | Cog / Sili |
| Y Rhws | Ffont-y-gari / Y Rhws |
| Llanilltud Fawr | Trebefered / Llanilltud Fawr |
| Y Barri | Y Barri / Y Bendricks |
| Tresimwn | Tresimwn / Greenway |
| Ruthin | Grŵp o bentrefannau ac aneddiadau gwledig |
| Saint Andras | Grŵp o bentrefannau ac aneddiadau gwledig |

# 10 ARFARNIAD ANEDDIADAU - EGWYDDORION ALLWEDDOL A METHODOLEG SGORIO

**10.1** Mae methodoleg Papur Arfarniad Aneddiadau Cynaliadwy (PAAC) drafft Grŵp Braenaru Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (GCSDDdC) yn seiliedig ar y 3 egwyddor ganlynol:

- **Egwyddor 1** – *Lefel trafnidiaeth gynaliadwy a hygyrchedd o fewn aneddiadau ac o'u cwmpas.*
- **Egwyddor 2** – *Argaeledd cyfleusterau a gwasanaethau lleol o fewn aneddiadau ac o'u cwmpas.*
- **Egwyddor 3** – *Lefel y cyfleoedd cyflogaeth o fewn aneddiadau ac o'u cwmpas.*

**10.2 System Sgorio**

**10.2.1** Felly, mae'r system sgorio a ddefnyddir at ddibenion yr Adolygiad Arfarniad Aneddiadau hwn yn seiliedig ar y tair egwyddor a nodir uchod.

**10.3 Egwyddor 1: Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd - Lefel trafnidiaeth gynaliadwy a hygyrchedd o fewn aneddiadau ac o'u cwmpas.**

**10.3.1** Mae Egwyddor 1 yn canolbwyntio ar drafnidiaeth gynaliadwy a hygyrchedd ar y sail bod ei ddarpariaeth yn lleihau'r angen i deithio yn y car ac yn galluogi mynediad at ystod ehangach o fwynderau trwy ddulliau teithio cynaliadwy. Mae aneddiadau sydd wedi'u cysylltu'n dda trwy ffurfiau aml-foddol o drafnidiaeth yn helpu i gynyddu'r defnydd o opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy i breswylwyr gael mynediad at ystod o gyfleusterau gan gynnwys cyflogaeth, gofal iechyd, addysg, a manwerthu.

**10.3.2** Mae Tabl 3 yn nodi'r ffactorau a'r sgorio a ddefnyddir ar gyfer asesu aneddiadau yn erbyn Egwyddor 1:

**Tabl 3 - Matrics Sgorio Darpariaeth Trafnidiaeth Gyhoeddus:**

| Trafnidiaeth Gyhoeddus | Darpariaeth | Sgôr |
|---|---|---|
| **Egwyddor 1.1** | | |
| **Gwasanaethau Bws** | Gwasanaeth bob 30 munud neu lai. | 5 pwynt. |
| | Gwasanaeth rhwng 30 a 60 munud. | 3 phwynt. |
| | Mwy na awr (yn ystod y dydd a gyda'r nos). | 1 pwynt. |
| | Dim gwasanaeth bws. | 0 pwynt. |
| *D.S. Dyfernir sgôr ar gyfer pob gwasanaeth. Dyfernir 2 bwynt ychwanegol lle mae'r llwybrau'n darparu cysylltiad i brif ganolfan, gan gynnwys canolfannau awdurdodau lleol cyfagos.* | | |
| **Egwyddor 1.2** | **Darpariaeth** | **Sgôr** |
| | Gorsaf drenau yn yr Anheddiad. | 10 pwynt. |

| | | |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau Rheilffordd** | Llai na 5 milltir o'r anheddiad. | 3 phwynt. |
| | Rhwng 5 milltir a 10 milltir o'r anheddiad. | 1 pwynt. |
| | Mwy na 10 milltir. | 0 pwynt. |

**10.3.3** Ar gyfer gwasanaethau bws, dyfarnwyd sgorau yn seiliedig ar bresenoldeb gwasanaethau bws o amleddau amrywiol; dyfernir pwyntiau ar gyfer pob gwasanaeth, gyda dau bwynt ychwanegol yn cael eu dyfarnu os yw llwybrau bysus yn cynnig cysylltiad â phrif ganolfan, gan gynnwys canolfannau o fewn awdurdod lleol cyfagos (Egwyddor 1.1). Mae hyn yn cydnabod y cyfle i gael mynediad at wasanaethau allweddol / cyfleusterau / cyfleoedd cyflogaeth sydd wedi'u lleoli o fewn aneddiadau trefn uwch lle nad yw'r rhain yn bresennol o fewn yr anheddiad ei hun.

**10.3.4** Mae'r system sgorio hefyd yn cydnabod argaeledd gwasanaethau rheilffordd, a phellterau i'w cyrraedd (Egwyddor 1.2). Yn wahanol i wasanaethau bws, ychydig o aneddiadau'r Fro sy'n elwa'n uniongyrchol o orsaf reilffordd ac ar hyn o bryd mae gorsafoedd rheilffordd yn gwasanaethu Llanilltud Fawr, Y Rhws, Y Barri, Dinas Powys a Phenarth sy'n darparu gwasanaethau parcio a theithio. Ar gyfer aneddiadau eraill na wasanaethir gan reilffordd, dyfarnwyd sgôr am y pellter i'r orsaf agosaf (gan ddefnyddio Google Maps), mae hyn yn cynnwys y pellter i orsaf reilffordd mewn ardal awdurdod lleol cyfagos lle dyma'r un agosaf i'r anheddiad (yn yr achos hwn, ystyriwyd y brif orsaf linell ym Mhen-y-bont ar Ogwr).

**Ffigur 5: Trafnidiaeth Gynaliadwy / Trafnidiaeth Gyhoeddus**



**10.3.5** Er na ellir diystyru rôl Teithio Llesol o ran cynyddu hygyrchedd, yn gyffredinol mae’r gwaith o gynllunio a gweithredu llwybrau teithio llesol ym Mro Morgannwg yn canolbwyntio ar aneddiadau allweddol y Fro, gan ddarparu cymunedau ag opsiynau teithio cynaliadwy ar gyfer mynediad i ganolfannau lleol, hwyluso teithiau o ddydd i ddydd a mynd i'r afael â materion mynediad penodol. Ar ben hynny, er ein bod wedi ac yn parhau i weld cynnydd sylweddol ar nodi, dylunio a gweithredu llwybrau teithio llesol yn yr ardaloedd hyn, byddai eu cynnwys o fewn y matrics sgorio Arfarniad Aneddiadau ond yn cyfrannu at ddyrchafiad ychwanegol ar gyfer yr aneddiadau hynny sydd eisoes yn sgorio'n uchel, ac felly byddai eu cynnwys yn annhebygol o effeithio ar y matrics sgorio mewn unrhyw ffordd sylweddol. O ganlyniad, nid yw presenoldeb llwybrau teithio llesol wedi cael ei ystyried yn uniongyrchol yn y system sgorio. Er gwaethaf hyn, mae ystyried cyfleoedd ar gyfer teithio llesol yn ffurfio elfen allweddol o asesiad y Cyngor o gyflwyniadau safleoedd ymgeisiol. Mae ffigur 6 yn dangos y llwybrau Teithio Llesol ym Mro Morgannwg a gellir gweld Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol Llywodraeth Cymru yma.

**Ffigur 6: Darpariaeth Teithio Llesol Presennol**



## 10.4 Egwyddor 2: Cyfleusterau a Gwasanaethau – Argaeledd cyfleusterau a gwasanaethau lleol o fewn aneddiadau ac o'u cwmpas.

### 10.4.1 Gwasanaethau Allweddol (Iechyd, Addysg, Canolfannau Manwerthu)


| 54 | Tresimwn | **6** | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| 55 | Castell Alun | **6** | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| 56 | Dinas | **6** | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| 57 | Croes Cwrlwys | **6** | 0 | 0 | 0 | 5 | 1 |
| 58 | Y Ddrôp | **6** | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| 59 | Dyffryn | **6** | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| 60 | Gwern y Steeple | **6** | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| 61 | Hensol | **6** | 0 | 0 | 0 | 5 | 1 |
| 62 | Llanbydderi | **6** | 0 | 0 | 0 | 5 | 1 |
| 63 | Llansanwyr | **6** | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| 64 | Moulton | **6** | 0 | 0 | 0 | 5 | 1 |
| 65 | Norton | **6** | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| 66 | Aberogwr | **6** | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| 67 | Pentref Ogwr | **6** | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| 68 | Pancross | **6** | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| 69 | Ruthin | **6** | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| 70 | Llansanffraid-ar-Elái | **6** | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| 71 | Llwyneliddon | **6** | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| 72 | St Mary Hill | **6** | 0 | 0 | 0 | 5 | 1 |
| 73 | Sant Y Nyll | **6** | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| 74 | Swanbridge | **6** | 0 | 0 | 0 | 5 | 1 |
| 75 | Tre-walter | **6** | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| 76 | Llantriddyd | **4** | 0 | 0 | 0 | 3 | 1 |
| 77 | Maendy | **4** | 0 | 0 | 0 | 3 | 1 |
| 78 | Llanbedr-y-fro | **4** | 0 | 0 | 0 | 3 | 1 |
| 79 | Southerndown | **4** | 0 | 0 | 0 | 3 | 1 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 80 | Saint-y-brid | **4** | 0 | 0 | 0 | 3 | 1 |
| 81 | Sain Siorys | **4** | 0 | 0 | 0 | 3 | 1 |
| 82 | Sain Nicolas | **4** | 0 | 0 | 0 | 3 | 1 |
| 83 | Tair Onen | **4** | 0 | 0 | 0 | 3 | 1 |
| 84 | Trerhyngyll | **4** | 0 | 0 | 0 | 3 | 1 |
| 85 | Twyn-yr-Odyn | **4** | 0 | 0 | 0 | 3 | 1 |
| 86 | Llanddunwyd | **4** | 0 | 0 | 0 | 3 | 1 |
| 87 | Ystradowen | **4** | 0 | 0 | 0 | 3 | 1 |

# 12 CASGLIADAU

**12.1** Mae canfyddiadau'r Adolygiad Arfarniad Aneddiadau yn atgyfnerthu astudiaethau cynharach i raddau helaeth gyda dim ond tri newid i safleoedd yr aneddiadau; mae’r Wig a Chroes Cwrlwys bellach yn cael eu dosbarthu fel 'Prif Aneddiadau' ac ail-ddosbarthwyd Southerndown o fewn y categori 'Pentrefannau ac Aneddiadau Gwledig Llai'. Mae'r asesiad yn dangos eto bod Bro Morgannwg yn cynnig ystod amrywiol o aneddiadau sy'n cynnwys ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau, ac sy'n cyflawni amrywiaeth o rolau a swyddogaethau i gefnogi'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

**12.2** Wrth symud ymlaen â'r CDLIN, mae angen egluro'r dewisiadau ar gyfer dosbarthu datblygiadau newydd ar draws ardal y Cynllun. Dylai datblygiadau newydd adlewyrchu a chefnogi rôl a swyddogaeth aneddiadau a chymunedau'r Fro, gan gynorthwyo i greu lleoedd ac annog a hwyluso'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy. Gall methu â pharchu graddfa a swyddogaeth lleoedd arwain at ddatblygiadau amhriodol ac arwain at batrymau anghynaladwy o drafnidiaeth, colli ansawdd amgylcheddol a chymeriad lleol, llai o ffyniant economaidd a rhwystro cynhwysiant cymdeithasol a chreu cymunedau cytbwys.

**12.3** Ystyrir bod categoreiddio aneddiadau'r Fro yn 4 categori yn cynrychioli rôl, cymeriad a swyddogaeth aneddiadau orau. Y rhain yw:

- **Aneddiadau Allweddol a Chanolfannau Gwasanaeth**
- **Prif Aneddiadau**
- **Aneddiadau Gwledig Bach**
- **Pentrefannau ac Aneddiadau Gwledig Llai.**

**12.4 Categoreiddio Aneddiadau a Hierarchaeth Aneddiadau**

**12.5 <u>Aneddiadau Allweddol a Chanolfannau Gwasanaeth:</u>**

- **Anheddiad Allweddol:** Y Barri
- **Aneddiadau Canolfannau Gwasanaeth**: Y Bont-faen, Llanilltud Fawr, Penarth

**12.5.1** Y rhain yw aneddiadau mwyaf y Fro a'r prif ganolfannau poblogaeth, gyda mwy na 4,000 o drigolion ar y cyfan. Maent yn cynnwys amrywiaeth eang o wasanaethau a chyfleusterau, ac maent yn gweithredu fel hybiau trafnidiaeth pwysig sy'n cael eu gwasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gyhoeddus (naill ai'r rheilffordd neu fysus neu'r ddau). Adlewyrchir lefelau'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael yn y sgorau asesu cyffredinol uchel.

**12.5.2** Ar frig yr hierarchaeth mae anheddiad allweddol Y Barri, sef tref fwyaf y Fro, a dyma'r ganolfan weinyddol ar gyfer Bro Morgannwg. Mae gan y dref boblogaeth lawer mwy nag aneddiadau eraill yn y Fro ac mae'n darparu ar gyfer ystod o wasanaethau a chyfleusterau strategol gan gynnwys cyflogaeth, manwerthu, a thrafnidiaeth. Mae'r Barri hefyd yn ganolbwynt ar gyfer twristiaeth yn y Fro ac mae'n ganolfan bwysig ar gyfer gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd. Mae'r asesiad hwn yn dangos bod y Barri yn sgorio'n dda yn erbyn pob egwyddor o fewn yr archwiliad, gydag ystod eang o wasanaethau allweddol fel addysg uwch ac uwchradd, canolfannau manwerthu sefydledig a chyfleusterau gofal iechyd sy'n gwasanaethu'r dref a'r dalgylch ehangach. Mae'r dref yn elwa o seilwaith trafnidiaeth dda (rheilffordd a bysus), sy'n darparu hygyrchedd da i drigolion a chysylltedd â/o aneddiadau cyfagos o fewn a thu hwnt i'r Fro. Am y rhesymau hyn y Barri yw'r Anheddiad Allweddol o fewn yr hierarchaeth.

**12.5.3** Er bod aneddiadau Y Bont-faen, Penarth a Llanilltud Fawr yn wahanol o ran cymeriad o ran eu maint a'u lleoliad, ystyrir eu bod yn chwarae rolau tebyg (o ystyried eu swyddogaethau strategol cyffredinol). Mae gan yr aneddiadau hyn boblogaethau preswyl sylweddol a darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus dda, ystod o gyfleoedd cyflogaeth lleol, canol trefi sefydledig ac amrywiaeth eang o wasanaethau a chyfleusterau diwylliannol, addysgol a chymunedol. Am y rhesymau hyn, mae'r aneddiadau hyn wedi'u hystyried yn Aneddiadau Canolfannau Gwasanaeth sy'n adlewyrchu eu rôl wrth ddarparu ystod o wasanaethau sy'n gwasanaethu anghenion dyddiol eu trigolion ac yn gweithredu fel hybiau pwysig i'r rhai sy'n byw mewn aneddiadau llai cyfagos.

**Tabl 15: Sgôr Cyffredinol Aneddiadau Allweddol a Chanolfannau Gwasanaeth:**

| Anheddiad | Cyfanswm Sgôr | Egwyddor 1.1 Trafnidiaeth Gyhoeddus | Egwyddor 1.2 Pellter i Wasanaethau Allweddol | Egwyddor 2.1 Cyfleusterau Allweddol | Egwyddor 2.2 Cyfleusterau Dyddiol | Egwyddor 3 Cyfleoedd Cyflogaeth | Poblogaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Barri | **292** | 46 | 18 | 109 | 44 | 55 | 20 |
| Penarth | **229** | 43 | 18 | 86 | 44 | 18 | 20 |
| Llanilltud Fawr | **179** | 24 | 16 | 68 | 36 | 20 | 15 |
| Y Bont-faen | **154** | 7 | 16 | 65 | 36 | 20 | 10 |

## 12.6 Prif Aneddiadau:

- **Dinas Powys, Y Rhws, Sain Tathan, Llandochau (Penarth), Sili, Gwenfô, y Wig a Chroes Cwrlwys**

**12.6.1** Nodweddir yr 8 lle a nodwyd fel Prif Aneddiadau yn gyffredinol trwy fod â phoblogaethau preswyl llai, ond nid di-nod, fel arfer dros 1,000 o drigolion (poblogaeth y Wig = 755), ac fel arfer o leiaf un gwasanaeth neu gyfleuster allweddol (ysgol, gwasanaeth iechyd neu ganolfan siopa leol neu gymdogaeth). Maent hefyd yn cefnogi amrywiaeth o wasanaethau o ddydd i ddydd, yn ogystal ag elwa o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus aml (naill ai bysus a/neu reilffordd) a mynediad at elfen o gyflogaeth leol. Mae presenoldeb o leiaf un gwasanaeth neu gyfleuster allweddol hefyd yn dangos bod yr anheddiad yn chwarae rôl gefnogol i aneddiadau llai cyfagos megis y rhai sy'n dod o fewn dalgylch ysgol neu bractis iechyd. O ganlyniad, mae'r aneddiadau hyn wedi sgorio'n gymharol dda ar draws y tair egwyddor.

**12.6.2** Mae Sain Tathan yn chwarae rôl cyflogaeth strategol pwysig ac mae gan y Prif Aneddiadau - Dinas Powys, Llandochau (Penarth), y Rhws, Sili, Sain Tathan a Gwenfô rôl bwysig wrth gwrdd â'r angen am dai ac wrth ddarparu rhai gwasanaethau a chyfleusterau lleol allweddol. Mae'r Prif Aneddiadau'n ategu rôl yr Aneddiadau Allweddol a'r Canolfannau Gwasanaeth gan eu bod yn darparu ar gyfer anghenion trigolion ac anghenion yr ardaloedd gwledig ehangach o'u cwmpas. Maent yn cynnig sawl gwasanaeth a chyfleuster allweddol, sy'n hanfodol i'w rôl fel cymunedau cynaliadwy, wrth iddynt leihau'r angen i deithio i'r Barri neu aneddiadau lefel uwch fel y Barri neu Aneddiadau canolfannau gwasanaeth ar gyfer anghenion o ddydd i ddydd. Mae'r cyfleusterau hyn yn cynnwys ysgolion cynradd, siopau cyfleus bach, siopau bwyd a diod, rhywfaint o ddarpariaeth cyflogaeth ar raddfa fach a thrafnidiaeth gyhoeddus reolaidd.

**12.6.3** O ganlyniad i'r adolygiad, mae Croes Cwrlwys a’r Wig bellach wedi'u cynnwys yn y categori hwn o aneddiadau sy'n adlewyrchu twf y boblogaeth yn ogystal â'r ystod o wasanaethau a hygyrchedd a gynigir. Er cydnabyddir bod gan yr aneddiadau llai hyn faint a swyddogaeth wahanol i'r aneddiadau mwy yn yr haen hon, mae'n anochel bod 'ystod' o fewn pob haen, ac mae'r lleoedd llai yn dal i ddangos digon o wasanaethau, cyfleusterau a chysylltiadau i'w hystyried yn ddigon cynaliadwy (i'w cynnwys yn yr haen hon).

**Tabl 16: Sgôr Cyffredinol Prif Aneddiadau**

| Anheddiad | Cyfanswm Sgôr | Egwyddor 1.1 Trafnidiaeth Gyhoeddus | Egwyddor 1.2 Pellter i Wasanaethau Allweddol | Egwyddor 2.1 Cyfleusterau Allweddol | Egwyddor 2.2 Cyfleusterau Dyddiol | Egwyddor 3 Cyfleoedd Cyflogaeth | Poblogaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dinas Powys | **149** | 29 | 18 | 36 | 31 | 20 | 15 |
| Y Rhws | **137** | 18 | 18 | 48 | 25 | 18 | 10 |
| Sain Tathan | **120** | 11 | 18 | 30 | 26 | 25 | 10 |
| Llandochau (Penarth) | **117** | 41 | 18 | 15 | 13 | 20 | 10 |
| Sili | **81** | 13 | 18 | 15 | 17 | 8 | 10 |
| Gwenfô | **61** | 8 | 18 | 5 | 17 | 8 | 5 |
| Y Wig | **59** | 8 | 16 | 5 | 17 | 8 | 5 |
| Croes Cwrlwys | **57** | 13 | 16 | 0 | 17 | 6 | 5 |

## 12.7 Aneddiadau Gwledig Bach

| | | |
|---|---|---|
| Aberddawan (Dwyrain) | Craig Pen-llin | Pen-llin |
| Aberthin | Llancarfan | Llanbedr-y-fro |
| Tresimwn | Llandŵ | Tresigin |
| Tregolwyn | Llan-faes | Saint-y-brid |
| Corntwn | Llyswyrny | Sain Nicolas |
| Ewenni | Aberogwr | Tre-os |
| Fferm Goch | Pendeulwyn | Ystradowen |

**12.7.1** Mae'r grŵp hwn o 21 o Aneddiadau Gwledig Bach yn cynnwys ystod fwy cyfyngedig ond pwysig o wasanaethau a chyfleusterau na'r Prif Aneddiadau a nodir uchod. Er gwaethaf hyn, maent wedi perfformio'n dda o’u cymharu yn erbyn aneddiadau gwledig eraill (llai fel arfer) ac fe'u hystyrir fel mannau sy’n darparu ystod o wasanaethau a chyfleusterau ac sy'n chwarae rhan weithredol wrth ddiwallu rhai o anghenion sylfaenol trigolion o fewn ardaloedd gwledig, gan leihau'r angen i deithio. Yn hyn o beth, mae ganddynt rôl swyddogaethol bwysig i'w chwarae wrth gefnogi cymunedau gwledig.

**12.7.2** Yn gyffredinol, sgoriodd yr aneddiadau o fewn y categori hwn rhwng 25 a 40 oherwydd ffactor fel elwa o wasanaeth bws gwledig gweddol aml a / neu bresenoldeb ysgol gynradd, siop, tafarn, neu wasanaeth tebyg arall o fewn yr anheddiad. Roedd yr agosrwydd at wasanaethau allweddol sydd wedi'u lleoli o fewn prif aneddiadau mwy hefyd yn ffactor a oedd yn cyfrannu at nodi’r aneddiadau hyn. Mae poblogaethau o fewn yr aneddiadau hyn yn amrywio'n sylweddol ac yn amrywio o bron i 100 i 1,500 o drigolion.

**Tabl 17: Sgorau Cyffredinol Aneddiadau Gwledig Bach:**

| Anheddiad | Cyfanswm Sgôr | Egwyddor 1.1 Trafnidiaeth Gyhoeddus | Egwyddor 1.2 Pellter i Wasanaethau Allweddol | Egwyddor 2.1 Cyfleusterau Allweddol | Egwyddor 2.2 Cyfleusterau Dyddiol | Egwyddor 3 Cyfleoedd Cyflogaeth | Poblogaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ewenni | **48** | 8 | 12 | 0 | 17 | 8 | 2 |
| Corntwn | **46** | 8 | 12 | 0 | 15 | 8 | 2 |
| Saint-y-brid | **44** | 6 | 11 | 5 | 13 | 4 | 5 |
| Tregolwyn | **43** | 6 | 14 | 5 | 8 | 8 | 2 |
| Sain Nicolas | **39** | 8 | 8 | 5 | 9 | 4 | 5 |
| Tresimwn | **38** | 6 | 12 | 0 | 9 | 6 | 5 |
| Fferm Goch | **38** | 3 | 12 | 5 | 4 | 13 | 1 |
| Llanbedr-y-fro | **37** | 5 | 8 | 5 | 10 | 4 | 5 |
| Llandŵ | **36** | 7 | 16 | 0 | 4 | 8 | 1 |
| Ystradowen | **36** | 5 | 14 | 0 | 8 | 4 | 5 |
| Llan-faes | **35** | 3 | 15 | 0 | 7 | 8 | 2 |
| Pendeulwyn | **35** | 3 | 10 | 5 | 8 | 8 | 1 |
| Aberthin | **34** | 5 | 14 | 0 | 7 | 6 | 2 |
| Llancarfan | **34** | 3 | 16 | 0 | 6 | 8 | 1 |
| Llyswyrny | **34** | 5 | 16 | 0 | 4 | 8 | 1 |
| Craig Pen-llin | **33** | 3 | 14 | 0 | 7 | 8 | 1 |
| Aberogwr | **32** | 1 | 7 | 0 | 13 | 6 | 5 |
| Tresigin | **31** | 3 | 16 | 0 | 3 | 8 | 1 |
| Aberddawan (Dwyrain) | **30** | 8 | 10 | 0 | 3 | 8 | 1 |
| Pen-llin | **30** | 3 | 14 | 0 | 4 | 8 | 1 |
| Tre-os | **29** | 1 | 12 | 0 | 6 | 8 | 2 |

## 12.8 Pentrefannau ac Aneddiadau Gwledig Llai

Aberddawan (Gorllewin)
Brychdwn
Castell Alun
Dinas
Y Ddrôp
Dyffryn
Trefflemin
Ffwl-y-mwn
Silstwn
Gwern y Steeple
Hensol
Lampha
Larnog
Lecwydd
Llanbydderi
Llancatal
Llanfihangel y Bont-faen
Llansanwyr
Llantriddyd
Maendy
Marcroes
Llanfihangel-y-pwll
Yr As Fawr
Moulton
Norton
Pentref Ogwr
Pancross
Pen-marc
Penn Onn
Pentremeurig
Porthceri
Ruthin
Llansanffraid-ar-Elái
Sain Dunwyd
Sain Siorys
Saint Hilari
Llwyneliddon
Eglwys y Santes Fair
St Mary Hill
Sant Y Nyll
Swanbridge
Tair Onen
The Downs
The Herberts
Tredogan
Trerhyngyll
Tre-Dodridge
Twyn-yr-Odyn

| | | |
|---|---|---|
| Llandochau (Y Bont-faen) | Southerndown | Tre-walter |
| Llan-gan | Saint Andras | Llanddunwyd |

**12.8.1** Yn gyffredinol, y 54 anheddiad hyn yw'r pentrefannau llai neu'r aneddiadau gwledig sy'n cynnwys naill ai grwpiau bach o anheddau neu grwpiau mwy gwasgaredig o eiddo preswyl (yn aml yn cynnwys tai unigol ynysig neu ffermdai ac ysguboriau wedi'u trosi). Fel arfer mae gan y llefydd hyn boblogaethau preswyl llai, yn gyffredinol o dan 100 o drigolion. Er hynny, mae'r aneddiadau yn gyfranwyr pwysig at fywyd cefn gwlad ym Mro Morgannwg a chymeriad cefn gwlad y tu allan i'r prif aneddiadau.

**12.8.2** Tra'n cynnig llai o wasanaethau a chyfleusterau, nodweddir y rhain yn gyffredinol gan elfennau megis blwch post, man addoli, tafarndai, bwytai, neu ardaloedd bychain o fannau agored cyhoeddus. Felly, mae trigolion yr aneddiadau hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar yr amwynderau sydd ar gael o fewn yr aneddiadau lefel uwch i ddiwallu eu hanghenion bob dydd. Mae agosrwydd yr aneddiadau llai at brif anheddiad i gael mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau felly yn ystyriaeth gynaliadwyedd bwysig gan y bydd rhai pentrefi â chyfleusterau cyfyngedig, y gellid eu hystyried yn fwy cynaliadwy oherwydd eu hagosrwydd at brif aneddiadau eraill a'r cyfleusterau a'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig.

**12.8.3** Ar wahân i hyn, mae llawer o'r aneddiadau wedi'u hynysu, yn gwasanaethu rôl a swyddogaeth gyfyngedig ac nid oes ganddynt fynediad at wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus na gwasanaethau cymunedol sylfaenol na chyfleoedd cyflogaeth. O ystyried eu lleoliad a'u rôl a'u swyddogaeth gyfyngedig mae'n rhesymol dod i'r casgliad ei bod yn debygol y bydd dibyniaeth uwch ar y car preifat i gael mynediad at amwynderau sylfaenol yn yr ardaloedd hyn. Mae'n debygol y bydd datblygiadau yn yr aneddiadau hyn yn y dyfodol o raddfa gyfyngedig iawn a byddai angen iddynt fod yn unol â pholisïau yn y CDLIN mewn perthynas ag effaith ar gymeriad, a chynaliadwyedd.

## Tabl 18: Sgôr Cyffredinol Pentrefannau ac Aneddiadau Gwledig:

| Anheddiad | Cyfanswm Sgôr ynghyd â phoblogaeth | Egwyddor 1.1 Trafnidiaeth Gyhoeddus | Egwyddor 1.2 Pellter i Wasanaethau Allweddol | Egwyddor 2.1 Cyfleusterau Allweddol | Egwyddor 2.2 Cyfleusterau Dyddiol | Egwyddor 3 Cyfleoedd Cyflogaeth | Poblogaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lecwydd | **38** | 8 | 18 | 0 | 4 | 8 | 0 |
| Ffwl-y-mwn | **37** | 8 | 18 | 0 | 3 | 8 | 0 |
| Sain Dunwyd | **37** | 6 | 16 | 5 | 3 | 6 | 1 |
| Marcroes | **35** | 8 | 16 | 0 | 3 | 8 | 0 |
| Saint Hilari | **35** | 6 | 18 | 0 | 4 | 6 | 1 |
| Y Ddrôp | **32** | 5 | 8 | 0 | 1 | 18 | 0 |
| Silstwn | **32** | 3 | 18 | 0 | 3 | 8 | 0 |
| Pentremeurig | **32** | 8 | 16 | 0 | 2 | 6 | 0 |
| The Herberts | **32** | 1 | 18 | 5 | 2 | 6 | 0 |
| Brychdwn | **32** | 8 | 16 | 0 | 1 | 6 | 1 |
| Llanfihangel-y-pwll | **32** | 3 | 18 | 0 | 2 | 8 | 1 |
| Pen-marc | **32** | 1 | 18 | 0 | 4 | 8 | 1 |
| Swanbridge | **32** | 3 | 18 | 0 | 4 | 6 | 1 |
| Trefflemin | **31** | 3 | 18 | 0 | 2 | 8 | 0 |
| Saint Andras | **31** | 3 | 18 | 0 | 2 | 8 | 0 |
| The Downs | **31** | 6 | 14 | 0 | 2 | 8 | 1 |
| Llandochau (Y Bont-faen) | **30** | 3 | 18 | 0 | 1 | 8 | 0 |
| Porthceri | **30** | 3 | 18 | 0 | 1 | 8 | 0 |
| Eglwys y Santes Fair | **30** | 1 | 18 | 0 | 2 | 8 | 1 |
| Larnog | **29** | 1 | 18 | 0 | 2 | 8 | 0 |
| Llancatal | **29** | 3 | 16 | 0 | 2 | 8 | 0 |
| Moulton | **29** | 3 | 18 | 0 | 2 | 6 | 0 |
| Twyn-yr-Odyn | **29** | 3 | 16 | 0 | 4 | 6 | 0 |
| Llantriddyd | **28** | 3 | 16 | 0 | 3 | 6 | 0 |
| Yr As Fawr | **28** | 3 | 14 | 0 | 3 | 8 | 0 |
| Pancross | **28** | 3 | 18 | 0 | 1 | 6 | 0 |
| Llanbydderi | **27** | 3 | 16 | 0 | 2 | 6 | 0 |
| Tredogan | **27** | 1 | 18 | 0 | 0 | 8 | 0 |
| Tre-walter | **27** | 3 | 18 | 0 | 0 | 6 | 0 |
| Hensol | **27** | 7 | 10 | 0 | 3 | 6 | 1 |
| Llanfihangel y Bont-faen | **26** | 1 | 16 | 0 | 1 | 8 | 0 |
| Southerndown | **26** | 8 | 7 | 0 | 6 | 4 | 1 |
| Llanddunwyd | **26** | 3 | 14 | 0 | 3 | 6 | 0 |
| Llansanwyr | **25** | 3 | 14 | 0 | 2 | 6 | 0 |
| Penn Onn | **25** | 1 | 16 | 0 | 0 | 8 | 0 |
| Llan-gan | **24** | 1 | 12 | 0 | 3 | 8 | 0 |
| Llansanffraid-ar-Elái | **24** | 7 | 8 | 0 | 3 | 6 | 0 |
| Sain Siorys | **24** | 7 | 8 | 0 | 3 | 6 | 0 |
| Llwyneliddon | **24** | 1 | 16 | 0 | 1 | 6 | 0 |
| Aberddawan (Gorllewin) | **23** | 3 | 10 | 0 | 2 | 8 | 0 |
| Dinas | **23** | 1 | 14 | 0 | 2 | 6 | 0 |
| Tair Onen | **23** | 6 | 12 | 0 | 1 | 4 | 0 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trerhyngyll | **23** | 3 | 14 | 0 | 1 | 4 | 1 |
| Dyffryn | **22** | 3 | 14 | 0 | 1 | 4 | 0 |
| St Mary Hill | **22** | 3 | 12 | 0 | 1 | 6 | 0 |
| Gwern y Steeple | **21** | 7 | 8 | 0 | 2 | 4 | 0 |
| Maendy | **21** | 1 | 14 | 0 | 0 | 6 | 0 |
| Ruthin | **20** | 1 | 12 | 0 | 1 | 6 | 0 |
| Tre-Dodridge | **19** | 1 | 10 | 0 | 0 | 8 | 0 |
| Castell Alun | **18** | 1 | 10 | 0 | 1 | 6 | 0 |
| Lampha | **17** | 1 | 8 | 0 | 0 | 8 | 0 |
| Pentref Ogwr | **17** | 3 | 5 | 0 | 3 | 6 | 0 |
| Sant Y Nyll | **15** | 1 | 8 | 0 | 0 | 6 | 0 |
| Norton | **14** | 3 | 7 | 0 | 0 | 4 | 0 |


**12.8.4** Diben yr astudiaeth hon yw rhoi syniad cyffredinol o hygyrchedd cymharol aneddiadau, lefelau darpariaeth gwasanaethau a grwpiau aneddiadau ym Mro Morgannwg; bydd yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr hierarchaeth aneddiadau o fewn y CDLIN.

**12.8.5** Yn hyn o beth mae'n bwysig nodi bod defnyddio dulliau sgorio a graddio yn golygu nad yw rhai ffactorau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol, sy'n bwysig wrth ddeall rôl, swyddogaeth a chynaliadwyedd cyffredinol anheddiad, yn cael eu hystyried yn llawn gan yr astudiaeth hon. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn ffactorau lle mae'n anodd priodoli gwerth rhifiadol. Ar ben hynny, mae'n bwysig cydnabod mai un o'r cyfyngiadau o ddefnyddio dulliau sgorio a graddio yw bod rhai rhagdybiaethau a chyffredinoli yn cael eu defnyddio'n ddieithriad, er enghraifft, ynghylch patrymau teithio i'r gwaith trigolion a'r defnydd gwirioneddol o ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy.

**12.8.6** Felly, ni fwriedir i asesiad strategol fel yr un yma fod yn asesiad cynllunio cynhwysfawr o aneddiadau unigol neu safleoedd datblygu posibl ynddynt. Byddai angen i asesiadau cynllunio manwl o'r fath ystyried y materion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sy'n effeithio ar aneddiadau penodol. Bydd penderfyniadau ar lefelau twf a chynigion unigol yn cael eu gwneud fel dyfarniadau cynllunio gwybodus ar ôl ystyried yr holl ffactorau perthnasol eraill.

# 13 ATODIADAU:

## 13.1 Atodiad 1 - Map Lleoliad a Ffiniau Aneddiadau a Arfarnwyd



## 13.2 Atodiad 2 - Rhestr o Wasanaethau Allweddol a Aseswyd

| Math o Wasanaeth | Manylion |
|---|---|
| **Cyfleusterau Addysg** | |
| Ysgolion Uwchradd / Colegau Addysg Bellach | Ysgol Gyfun y Bont-faen; Ysgol Llanilltud Fawr; Ysgol Uwchradd Pencoedtre; Ysgol Uwchradd Gatholig Richard Gwyn Sant; Ysgol Gyfun Sant Cyres; Ysgol Gyfun Stanwell; Ysgol Uwchradd Whitmore. |
| Ysgolion Cynradd (gan gynnwys Ysgolion *Canol ac **Arbennig) | Ysgol Gynradd Albert; Ysgol yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Seintiau; Ysgol Gynradd Ynys y Barri; Ysgol Gynradd Tregatwg; Ysgol Gynradd Cogan; Ysgol Gynradd Colcot; Ysgol Gynradd Dinas Powys;<br>Ysgol Gynradd Evenlode; Ysgol Gynradd Fairfield; Ysgol Gynradd Gladstone; Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Gwenfo; Ysgol Gynradd Stryd Fawr; Ysgol Gynradd Holltwn; Ysgol Gynradd Parc Jenner; Ysgol Gynradd Llancarfan; Ysgol Gynradd Llandochau; Ysgol Gynradd Llanfair; Ysgol Gynradd Llan-gan; Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llansanwyr; Ysgol Gynradd Oakfield; Ysgol Gynradd Palmerston; Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Pendeulwyn; Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr-y-fro; Ysgol Gynradd Rhws; Ysgol Gynradd Romilly; Ysgol Gynradd Trwyn y De; Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Saint Andras; Ysgol Gynradd  Sain Tathan; Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid; Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant; Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen; Ysgol Gynradd Sant Illtyd; Ysgol Gatholig Sant Joseff; Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Sant Nicholas; Ysgol Gynradd Sili; Ysgol Gynradd Victoria; Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Y Wig a Marcroes; Y Bont Faen<br>Y Daith**; Ysgol Dewi Sant; Ysgol Gwaun y Nant; Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg*; Ysgol Gymraeg Pen-y-Garth; Ysgol Iolo Morganwg; Ysgol Sant Baruc; Ysgol Sant Curig; Ysgol Y Deri**; Ysgol Y Ddraig. |
| Meithrinfeydd | Meithrinfa Bwthyn Bute, Meithrinfa Cogan. |
| **Cyfleusterau Gofal Iechyd** | |
| Meddygfeydd | Meddygfa Court Road; Practis Meddygol y Highlight Park; Practis Iechyd; Practis Grŵp y Fro; Meddygfa Ravenscourt, Y Barri; Practis Teulu'r Fro, Gibbonsdown, Y Barri; Meddygfa Porthcei; Meddygfa'r Rhws; Meddygfa Saint-y-brid; Canolfan Feddygol y Glannau; Canolfan Feddygol Cei'r Gorllewin; Canolfan Feddygol Y Rhws; Practis Meddygol Y Bont-faen a'r Fro; Practis Teulu Gorllewin y Fro; Canolfan Iechyd Y Bont-faen; Y Clinig, Llanilltud Fawr; Y Feddygfa, Sain Tathan; Canolfan Feddygol Dinas Powys; Practis Meddygol Llanilltud Fawr ac Arfordir y Fro; Meddygfa Eryl, Llanilltud Fawr; Meddygfa'r Capel, Sain Tathan; Partneriaeth Gofal Iechyd Penarth; Meddygfa Redlands; Meddygfa Sili. |

| | |
|---|---|
| Deintyddion | Deintyddfa A Jones; Gofal Deintyddol Uwch; Deintyddfa Heol Holltwn; Deintyddfa M Brown; Canolfan Ddeintyddol Porthceri; Practis Deintyddol Tynewyyd; Practis Deintyddol Cei'r Gorllewin (Canolfan Feddygol Cei'r Gorllewin); Gofal Deintyddol Windsor; Gofal Deintyddol Y Bont-faen; Deintyddfa'r Bont-faen; Practis Deintyddol Castle Court; Gofal Deintyddol Maes glas; Deintyddfa Calgary; Gofal Deintyddol East Street; Practis Deintyddol Tŷ Wyndham; Gofal Deintyddol Bupa; Gofal Iechyd Deintyddol Penarth; Practis Deintyddol Y Rhws. |
| Ysbytai | Ysbyty'r Barri; Ysbyty Athrofaol Llandochau. |
| Optegwyr | A I Dobbs; Arbuthnot Optometrist (Y Barri); Optegwyr Instore (Asda Stores Ltd, Y Barri); Barry Eye Centre Ltd; Jones & Jones<br>O'Sullivan Opticians (Y Barri); Optegwyr Specsavers y Barri; Vale Eyecare (yng Nghanolfan Feddygol Highlight Park); Cowbridge Specsavers Ltd; O'Sullivan Opticians y Bont-faen; R E Lloyd Optometrists; Davies & Jones Optometrist; Optegwyr Vision Express (Tesco - Croes Cwrlwys); Davies & Jones Optometrist; Chris Williams Opticians; Davies Nina Opticians; Gwyneth Morgan; Arbuthont Opticians (Penarth); Osmond I Drake; Penarth Eye Centre; Optegwyr Specsavers Penarth; O'Sullivan Opticians (Y Rhws). |
| Fferyllfeydd | Boots (Y Barri); Fferyllfa Brockway; Fferyllfa Evans, Cilgant y Parc, Y Barri; Fferyllfa Stryd Fawr, Y Barri; Lloyds Pharmacy (Fferyllfa Instore – Tesco, Y Barri); Lloyds Pharmacy (ym Meddygfa Court Road); Lloyds Pharmacy (yng Nghanolfan Feddygol y Glannau); Lloyds Pharmacy (Heol Holltwn, Y Barri); Fferyllwyr M W Phillips, Heol y Barri, Tregatwg; Fferyllwyr M W Phillips, Vere Street, Tregatwg; Fferyllfa Sant-y-brid; Fferyllfa Evans (yng Nghanolfan Feddygol Cei'r Gorllewin); Well Lloyds Pharmacy (Y Bont-faen); Sylvia Williams Chemist; Fferyllfa Instore (Tesco - Croes Cwrlwys); TH & L Jones Ltd; Murch Pharmacy (yng Nghanolfan Feddygol Dinas Powys); Boots (Llanilltud Fawr); Well (Llanilltud Fawr); Boots (Penarth); Knights Ivor Owen Pharmcay; Knights Varus Pharmacy; Knights Washington Pharmacy; Mayberry Pharmacy Ltd; Fferyllfa Instore (Tesco – Penarth); Rhoose Pharmacy; St Athan Pharmacy; Sully Pharmacy. |
| **Canolfannau Tref / Ardal** | Y Barri; Y Bont-faen; Llanilltud Fawr; Penarth |
| **Canolfan Manwerthu Lleol** | Heol y Barri, Tregatwg, Y Barri; Prif Stryd, Tregatwg, Y Barri; Cilgant y Parc, Y Barri; Heol Holltwn Uchaf, Y Barri; Vere Street, Tregatwg; Heol Caerdydd, Dinas Powys; Pentref Dinas Powys; Cornerswell Road, Penarth; Sain Tathan, Y Sgwâr; Y Rhws, Fontygary Road. |
| **Canolfannau Manwerthu Cymdogaeth** | Bron y Mor, Y Barri; Canolfan Cwm Talwg, Y Barri; Canolfan Gibbonsdown, Y Barri ; Heol y Parc, Y Barri, Trebefered; Cornel Camm, Dinas Powys; Llys y Castell / Y Parêd, Dinas |

| | |
|---|---|
| | Powys; Crawshay Drive, Llanilltud Fawr; Pill Street, Penarth; Tennyson Road, Penarth. |

## 13.3 Atodiad 3 – Sgorau Poblogaeth Breswyl Aneddiadau

| Anheddiad | Sgôr Poblogaeth (Uchafswm 20 pwynt) | Cyfrif Anheddau Preswyl (Rhestr Tir ac Eiddo Lleol 2022) | Poblogaeth Aneddiadau yn seiliedig ar nifer yr anheddau a maint cartref cyfartalog Bro Morgannwg o 2.26 person | % anheddau aneddiadau fel % o gyfanswm anheddau |
|---|---|---|---|---|
| **Y Barri** | **20** | 25,324 | 54,768 | 41.61 |
| **Penarth** | **20** | 11,047 | 23,891 | 18.15 |
| **Llanilltud Fawr** | **15** | 3,940 | 8,521 | 6.47 |
| **Dinas Powys** | **15** | 3,610 | 7,807 | 5.93 |
| **Y Rhws** | **10** | 2,828 | 6,116 | 4.65 |
| **Sain Tathan** | **10** | 2,371 | 5,128 | 3.90 |
| **Y Bont-faen** | **10** | 2,327 | 5,033 | 3.82 |
| **Sili** | **10** | 1,689 | 3,653 | 2.78 |
| **Llandough (Pen)** | **10** | 908 | 1,964 | 1.49 |
| **Aberogwr** | **5** | 651 | 1,408 | 1.07 |
| **Gwenfô** | **5** | 622 | 1,345 | 1.02 |
| **Croes Cwrlwys** | **5** | 489 | 1,058 | 0.80 |
| **Y Wig** | **5** | 349 | 755 | 0.57 |
| **Saint-y-brid** | **5** | 311 | 673 | 0.51 |
| **Llanbedr-y-fro** | **5** | 287 | 621 | 0.47 |
| **Tresimwn** | **5** | 278 | 601 | 0.46 |
| **Sain Nicolas** | **5** | 269 | 582 | 0.44 |
| **Ystradowen** | **5** | 239 | 517 | 0.39 |
| **Tregolwyn** | **2** | 221 | 478 | 0.36 |
| **Aberthin** | **2** | 176 | 381 | 0.29 |
| **Tre-os** | **2** | 149 | 322 | 0.24 |
| **Ewenni** | **2** | 144 | 311 | 0.24 |
| **Corntwn** | **2** | 143 | 309 | 0.23 |
| **Llan-faes** | **2** | 135 | 292 | 0.22 |
| **Craig Pen-llin** | **1** | 96 | 208 | 0.16 |
| **Llyswyrny** | **1** | 93 | 201 | 0.15 |
| **Fferm Goch** | **1** | 86 | 186 | 0.14 |
| **Hensol** | **1** | 85 | 184 | 0.14 |
| **Southerndown** | **1** | 83 | 180 | 0.14 |
| **Llandŵ** | **1** | 79 | 171 | 0.13 |
| **Swanbridge** | **1** | 75 | 162 | 0.12 |
| **Llancarfan** | **1** | 72 | 156 | 0.12 |
| **Saint Hilari** | **1** | 72 | 156 | 0.12 |
| **Pen-llin** | **1** | 72 | 156 | 0.12 |
| **Sain Dunwyd** | **1** | 70 | 151 | 0.12 |
| **Pen-marc** | **1** | 63 | 136 | 0.10 |
| **Trerhyngyll** | **1** | 61 | 132 | 0.10 |
| **Brychdwn** | **1** | 60 | 130 | 0.10 |
| **Eglwys y Santes Fair** | **1** | 58 | 125 | 0.10 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Pendeulwyn** | **1** | 53 | 115 | 0.09 |
| **The Downs** | **1** | 53 | 115 | 0.09 |
| **Llanfihangel-y-pwll** | **1** | 51 | 110 | 0.08 |
| **Aberddawan (Dwyrain)** | **1** | 47 | 102 | 0.08 |
| **Tresigin** | **1** | 46 | 99 | 0.08 |
| Twyn-yr-Odyn | **0** | 43 | 93 | 0.07 |
| Llandochau (Y Bont-faen) | **0** | 42 | 91 | 0.07 |
| Llan-gan | **0** | 41 | 89 | 0.07 |
| Llanbydderi | **0** | 40 | 87 | 0.07 |
| Marcroes | **0** | 39 | 84 | 0.06 |
| Llanddunwyd | **0** | 38 | 82 | 0.06 |
| Trefflemin | **0** | 38 | 82 | 0.06 |
| The Herberts | **0** | 37 | 80 | 0.06 |
| Tair Onen | **0** | 36 | 78 | 0.06 |
| Maendy | **0** | 36 | 78 | 0.06 |
| Sain Siorys | **0** | 33 | 71 | 0.05 |
| Gwern y Steeple | **0** | 32 | 69 | 0.05 |
| Pentremeurig | **0** | 30 | 65 | 0.05 |
| Silstwn | **0** | 28 | 61 | 0.05 |
| Llansanffraid-ar-Elái | **0** | 28 | 61 | 0.05 |
| Llancatal | **0** | 27 | 58 | 0.04 |
| Llansanwyr | **0** | 26 | 56 | 0.04 |
| Y Ddrôp | **0** | 26 | 56 | 0.04 |
| Saint Andras | **0** | 23 | 50 | 0.04 |
| Aberddawan (Gorllewin) | **0** | 23 | 50 | 0.04 |
| Dinas | **0** | 23 | 50 | 0.04 |
| Dyffryn | **0** | 23 | 50 | 0.04 |
| Lecwydd | **0** | 21 | 45 | 0.03 |
| Ffwl-y-mwn | **0** | 21 | 45 | 0.03 |
| Castell Alun | **0** | 20 | 43 | 0.03 |
| Ruthin | **0** | 18 | 39 | 0.03 |
| Llantriddyd | **0** | 17 | 37 | 0.03 |
| Llwyneliddon | **0** | 16 | 35 | 0.03 |
| Pentref Ogwr | **0** | 16 | 35 | 0.03 |
| Yr As Fawr | **0** | 14 | 30 | 0.02 |
| Pancross | **0** | 14 | 30 | 0.02 |
| Tre-Dodridge | **0** | 14 | 30 | 0.02 |
| Porthceri | **0** | 13 | 28 | 0.02 |
| Moulton | **0** | 11 | 24 | 0.02 |
| Tredogan | **0** | 10 | 22 | 0.02 |
| St Mary Hill | **0** | 10 | 22 | 0.02 |
| Sant Y Nyll | **0** | 10 | 22 | 0.02 |
| Penn Onn | **0** | 9 | 19 | 0.01 |
| Lampha | **0** | 8 | 17 | 0.01 |
| Llanfihangel y Bont-faen | **0** | 7 | 15 | 0.01 |
| Tre-walter | **0** | 7 | 15 | 0.01 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Norton | **0** | 5 | 11 | 0.01 |
| Larnog | **0** | 3 | 6 | 0.00 |
| **CYFANSWM** | | | 131,609.86 | |

## Atodiad 4: Cymharu Methodoleg Bro Morgannwg â Methodoleg GCSDDdC

| Dull GCSDDdC | Dull Bro Morgannwg | Rhesymau dros y Gwahaniaeth |
|---|---|---|
| **Egwyddor 1 – Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd** | | |
| **Llwybrau Teithio Llesol –** Nid yw'r fethodoleg ranbarthol yn sgorio pa mor gyffredin yw llwybrau o'r fath. | Nid yw'r fethodoleg hon wedi sgorio presenoldeb llwybrau Teithio Llesol o fewn aneddiadau. | Mae'n anodd mesur y nodwedd hon ar lefel aneddiadau gan fod llwybrau teithio llesol yn tueddu i fod mewn ardaloedd penodol ac wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â rhwystrau penodol i ddefnyddwyr. Hefyd, efallai na fyddant o reidrwydd yn cynnwys aneddiadau cyfan. Fodd bynnag, bydd darpariaeth llwybrau o'r fath yn cael ei gwerthuso ar lefel safle, fel rhan o'r broses Asesu Safleoedd Ymgeisiol. |
| **Cerdded a Beicio-** sgoriodd canllawiau GCSDDdC cerdded a beicio yn seiliedig ar y pellter i'r clwstwr mwyaf o gyfleusterau a gwasanaethau. Mae'r pellteroedd yn amrywio o lai na 100m i fwy na 1400m ar gyfer cerdded a llai na 1000m i fwy na 5000m ar gyfer beicio. | Os nad ydynt yn bresennol o fewn yr aneddiadau eu hunain, sgoriwyd aneddiadau yn seiliedig ar eu pellter cerdded / beicio i ystod o wasanaethau / cyfleusterau allweddol, gan gynnwys:<br><br>Ysgolion Uwchradd / Colegau Addysg Bellach<br>Ysgolion Cynradd / Ysgolion Meithrin<br>Cyfleusterau Iechyd<br>Canolfannau Tref / Ardal<br>Canolfannau Manwerthu Lleol<br>Canolfannau Manwerthu Cymdogaeth<br><br>Dyfarnwyd sgorau amrywiol yn seiliedig ar a oedd amwynderau o'r fath yn llai na 5 milltir, rhwng 5 a 10 milltir neu fwy na 10 milltir i ffwrdd. | Er y barnwyd ei bod yn bwysig sgorio darpariaeth cyfleusterau a gwasanaethau allweddol o fewn yr aneddiadau eu hunain, mae'r fethodoleg hefyd yn ceisio cydnabod aneddiadau sydd â lefelau uchel o hygyrchedd i wasanaethau a chyfleusterau allweddol ar droed ac ar feic. Penderfynwyd mai'r gwasanaethau a'r cyfleusterau a ymgorfforwyd yn y cam hwn o'r asesiad, (o dan Egwyddor 2.2.) oedd yr asedau aneddiadau mwyaf gwerthfawr o ran eu pwysigrwydd i gymunedau lleol yn ogystal â'r rhai mewn ardaloedd cyfagos. Er mwyn cydnabod y berthynas rhwng aneddiadau a'r ffaith bod rhai cyfleusterau e.e. meddygfeydd yn gwasanaethu pobl o ddalgylch ehangach, mae pellteroedd llawer mwy wedi'u defnyddio yn y dull hwn na'r hyn a ddrafftiwyd gan GCSDDdC. Hefyd, penderfynwyd y byddai'n well asesu pellteroedd o ganol anheddiad i gyfleusterau / gwasanaethau penodol nag o ganol un anheddiad i glwstwr o wahanol wasanaethau a chyfleusterau. |
| **Gwasanaethau Bws –** Mae amlder gwasanaethau bws sy'n cael eu gweithredu'n fasnachol yn amrywio o wasanaethau dyddiol anaml i ddarpariaeth 'troi lan a mynd' yn cael ei sgorio. Ond, rhaid i fynediad i'r holl wasanaethau fod o fewn 400m i'r anheddiad a asesir er mwyn derbyn sgôr. | Mae sgorau wedi'u penderfynu ar sail presenoldeb gwasanaethau bws o amleddau amrywiol; dyfernir pwyntiau ar gyfer pob gwasanaeth. Cafodd gwasanaethau sy'n rhedeg bob 30 munud neu lai, rhwng 30 a 60 munud a mwy nag awr (yn ystod y dydd a gyda'r nos) sgorau gwahanol; os nad oedd gwasanaeth bws ar gael roedd yr anheddiad yn cael 0 pwynt. Hefyd, dyfernir 2 bwynt ychwanegol lle mae'r | Mae'r ysbeidiau amlder a ddefnyddir yn y fethodoleg ar gyfer yr adran hon (Egwyddor 1.1) wedi'i addasu o'r dull GCSDDdC er mwyn adlewyrchu cyd-destun lleol. Hefyd, mae hyn yn cydnabod y cyfle i gael mynediad at wasanaethau / cyfleusterau allweddol / cyfleoedd cyflogaeth sydd wedi'u lleoli o fewn aneddiadau trefn uwch lle nad yw'r rhain yn bresennol o fewn yr anheddiad ei hun. |

| | | |
|---|---|---|
| | llwybrau'n darparu cysylltiad i brif ganolfan, gan gynnwys canolfannau awdurdodau lleol cyfagos. | |
| **Gwasanaethau Rheilffordd** - mae'r rhain yn cael eu sgorio'n rheolaidd yn seiliedig ar ba mor aml mae'r gwasanaeth rheilffordd yn rhedeg i brif ganolfan. | Mae sgorau wedi'u dyfarnu am bresenoldeb gorsafoedd trên o fewn yr aneddiadau eu hunain ond os nad ydynt yn bresennol, mae pwyntiau wedi'u rhoi yn seiliedig ar y pellter i'r orsaf agosaf. | Er nad oes gan rai o'r aneddiadau yn y Fro eu gorsaf reilffordd eu hunain, mae llawer yn gallu cael mynediad at wasanaethau rheilffordd o fewn pellter rhesymol. Hefyd, oherwydd pwysigrwydd cynyddol annog teithio llesol, barnwyd ei bod yn bwysig asesu hygyrchedd cyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus naill ai ar droed neu ar feic. |
| **Agosrwydd at ganol y dref / canol y ddinas –** mae'r dull rhanbarthol yn mesur pellter i ganolfannau aneddiadau yn yr adran hon. | Mae egwyddor 2.1 yn cynnwys asesu darpariaeth gwasanaeth / cyfleuster allweddol, mae hyn yn cynnwys: Canolfannau Tref / Ardal, Canolfannau Manwerthu Lleol a Chanolfannau Manwerthu Cymdogaeth. | Yn hytrach na chynnwys adran bwrpasol sy'n mesur y pellter rhwng pob anheddiad yn y Fro a chanol y dref agosaf, ymgorfforwyd yr agosrwydd at ganolfannau o'r fath yn yr asesiad methodoleg o ddarpariaeth cyfleuster / gwasanaeth allweddol a hygyrchedd. |
| **Gwasanaethau Ffyrdd –** sgoriodd methodoleg GCSDDdC aneddiadau yn seiliedig ar amseroedd gyrru i'r M4. Sgoriodd hefyd y ganran o fannau parcio sydd â phwynt gwefru cerbydau trydan. | Ni chafodd y ffactor hwn ei asesu o fewn methodoleg y Cyngor. | Oherwydd y pwyslais cynyddol ar yr angen i leihau dibyniaeth ar geir ac annog defnydd trafnidiaeth gyhoeddus, barnwyd ei bod yn bwysicach asesu safleoedd o ran argaeledd gwasanaethau bysus a threnau nag agosrwydd at rwydweithiau priffyrdd strategol. |
| **Egwyddor 2 – Argaeledd Cyfleusterau a Gwasanaethau** | | |
| **Anghenion Rheolaidd -** mae methodoleg GCSDDdC yn nodi gwasanaethau / cyfleusterau sy'n darparu ar gyfer anghenion dyddiol fel siopau, swyddfa'r post, cigydd a siopau bwyd yn ôl maint ac amrywiaeth. Yna caiff cyfanswm pob math o gyfleuster sgôr o rhwng 0 a 10. | Rydym wedi nodi a grwpio gyda'i gilydd y cyfleusterau a gwasanaethau sy'n darparu ar gyfer anghenion dyddiol pobl leol, gan gynnwys rhai o'r rhai a restrir yng nghanllawiau GCSDDdC. Yna sgoriwyd faint o bob math o wasanaeth / cyfleuster a ddarperir o fewn aneddiadau, (uchafswm sgôr fesul gwasanaeth / cyfleuster = 3 pwynt). | Cyflwynwyd uchafswm sgôr o 3 fesul math o wasanaeth / cyfleuster yn yr adran hon er mwyn osgoi creu anghysonderau yn seiliedig ar bresenoldeb uchel un math arbennig o gyfleuster neu wasanaeth yn unig. |
| **Cyfleusterau Cymunedol -** Mae canllawiau GCSDDdC yn cynnwys llyfrgelloedd, neuaddau, canolfannau chwaraeon / hamdden, caeau chwaraeon, clybiau chwaraeon, ardaloedd chwarae i blant, addoldai; caiff eu presenoldeb sgôr o rhwng 0 a 10. | Mae cyfleusterau Cymunedol a Hamdden wedi cael eu sgorio yn yr un modd â'r rhai sy'n darparu ar gyfer anghenion rheolaidd, o ddydd i ddydd, (uchafswm sgôr fesul math = 3 pwynt). Er gwaethaf dileu clybiau chwaraeon ac ychwanegu man agored hygyrch cyhoeddus, defnyddiwyd yr un ystod o gyfleusterau ag a nodwyd yn y dull GCSDDdC. | Cyflwynwyd uchafswm sgôr o 3 fesul math o wasanaeth / cyfleuster yn yr adran hon er mwyn osgoi creu anghysonderau yn seiliedig ar bresenoldeb uchel un math arbennig o gyfleuster neu wasanaeth yn unig. |

| | | |
|---|---|---|
| **Siopau Bwyd / Diod –** nid yw'r dull GCSDDdC yn sgorio'r cyfleusterau hyn. | Yn Nhabl 7, rydym wedi dyfarnu pwyntiau yn seiliedig ar nifer y siopau bwyd / diod yn yr anheddiad. | Gellir ystyried y cyfleusterau hyn yn bwysig nid yn unig i gynaliadwyedd economaidd, ond hefyd i gynaliadwyedd cymdeithasol a diwylliannol aneddiadau. |
| **Cyfleusterau Meddygol –** Dyfernir sgôr o rhwng 0 a 3 yn seiliedig ar y nifer cyfun o feddygfeydd, fferyllfeydd, deintyddion, ac ysbytai o fewn anheddiad. | Ar gyfer presenoldeb cyfleusterau meddygol, (gan gynnwys meddygfeydd, fferyllfeydd, deintyddion, optegwyr ac ysbytai) mae aneddiadau wedi derbyn 5 pwynt ar gyfer pob cyfleuster; y sgôr uchaf o fewn y categori hwn yw 15 h.y. 3 cyfleuster meddygol yn bresennol. Fodd bynnag, os nad oes cyfleusterau o'r fath wedi'u lleoli o fewn yr anheddiad ei hun, dyfarnwyd pwyntiau yn seiliedig ar ba mor hygyrch yw'r cyfleuster agosaf o ran pellter cerdded / beicio. | O'i gymharu â'r fethodoleg GCSDDdC drafft, mae mwy o bwysau wedi'i roi ar fynediad i gyfleusterau meddygol ar gyfer yr arfarniad hwn oherwydd er i uchafswm o 3 cyfleuster fesul anheddiad gael ei sgorio, roedd pob un werth 5 pwynt. Hefyd, hyd yn oed os nad yw cyfleusterau wedi'u lleoli o fewn yr aneddiadau eu hunain, aseswyd eu hygyrchedd o ran pellter. Dyfarnwyd y sgôr uchaf sydd ar gael ar gyfer hygyrchedd os oedd cyfleusterau o'r fath wedi'u lleoli o fewn 5 milltir i'r anheddiad gan y barnwyd bod hyn yn bellter y gellid ei deithio naill ai ar droed neu ar feic pe bai angen. |
| **Cyfleusterau Addysgol –** nid oedd Methodoleg GCSDDdC yn ymgorffori cyfleusterau addysgol. | Mae ein dull yn sgorio darpariaeth meithrinfeydd / grwpiau chwarae / grwpiau plant bach, ysgolion cynradd ac uwchradd, a chyfleusterau addysg bellach. Mae aneddiadau wedi derbyn 5 pwynt ar gyfer pob cyfleuster; Y sgôr uchaf o fewn y categori hwn yw 15 h.y. 3 ysgol yn bresennol. Os na ddarperir y cyfleusterau hyn o fewn yr aneddiadau eu hunain, dyfarnwyd pwyntiau yn seiliedig ar y pellter cerdded / beicio i'r cyfleuster addysg agosaf. | Mae mynediad at ystod o gyfleusterau addysgol yn agwedd bwysig ar gynaliadwyedd cymdeithasol o ran creu lleoedd. Yn benodol, mae mynediad at gyfleusterau o'r fath drwy ddulliau teithio actif yn bwysig i'w ystyried yn unol â'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru Argraffiad 11. Hefyd, gellir dadlau bod asesu darpariaeth cyfleusterau o'r fath yn cyfrannu at nifer o elfennau o'r Asesiad Aneddiadau a amlinellir yn Ffigur 3. |
| **Cysylltedd Band Eang –** Rhoddir sgôr o rhwng 0 a 2 i aneddiadau yn seiliedig ar a yw cysylltedd band eang yn yr ardal yn < 24 Mb/s, 0 – 24 Mb/s neu > 30 Mb/s. | Nid yw Cysylltedd Band Eang wedi'i ymgorffori yn y fethodoleg ar gyfer yr arfarniad hwn. | Mae tua 98.5% o drigolion Bro Morgannwg yn gallu cael mynediad at wasanaethau band eang cyflym iawn (>24Mbps) (*labs.thinkbroadband.com*). Felly, gan fod band eang cyflym ar gael ledled y Fro, nid yw wedi cael ei sgorio fel rhan o'r asesiad. Er, cydnabuwyd y gall mynediad / defnydd gael ei gyfyngu gan gyfyngiadau ariannol. |
| **Egwyddor 3 - Cyfleoedd Cyflogaeth** | | |
| Mae'r matrics sgorio yn cael ei gategoreiddio gan y math o gyflogaeth h.y. wedi'i rannu drwy ddosbarth defnydd ac mae aneddiadau'n cael eu sgorio yn | Mae'r system sgorio ar gyfer Egwyddor 3 yn mesur argaeledd Safleoedd Cyflogaeth Warchodedig, Safleoedd Busnes / Diwydiannol neu Safleoedd Defnydd Cymysg presennol o fewn ffiniau aneddiadau cyfredol. Hefyd, os nad oes safleoedd o'r fath wedi'u | Oherwydd maint llawer o'r aneddiadau ym Mro Morgannwg a'u poblogaethau cymharol fach, barnwyd ei bod yn amhriodol dilyn y dull rhanbarthol a argymhellir. Efallai bod y dull hwn wedi bod yn ddefnyddiol yn yr aneddiadau mwyaf fel Y Barri a Phenarth, ond byddai'r ysbeidiau a |

| | | |
|---|---|---|
| seiliedig ar y nifer cyfartalog o bobl sy'n gweithio ym mhob sector gwahanol. | lleoli o fewn aneddiadau, mae agosrwydd i Safle Cyflogaeth Warchodedig / a Nodwyd a phrif ganol trefi wedi cael ei asesu. | ddefnyddir ar gyfer sgorio ffigurau poblogaeth fesul sector wedi arwain at ganlyniadau terfynol anghymesur ar gyfer yr aneddiadau llai. |

RLDP CDLN

**Cyngor Bro Morgannwg**
Adfywio a Chynllunio
Swyddfa'r Doc
Dociau'r Barri
Y Barri CF63 4RT

LDP@valeofglamorgan.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

